Law Commission
Reforming the law
Comisiwn y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith



# Tystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol

## Crynodeb o'r Papur Ymgynghori

# Y crynodeb hwn

Bwriad y crynodeb hwn yw i roi trosolwg o'r prif faterion a drafodwyd gennym yn ein papur ymgynghori ar Dystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol. Mae'n egluro beth yw'r prosiect a pha faterion a drafodir.

Ynddo, rydym yn nodi nifer o gwestiynau ymgynghori y byddem yn hoffi i chi ymateb iddynt. Mae rhai cwestiynau'n amlinellu cynigion amodol ar gyfer diwygio'r gyfraith ac yn gofyn a ydych yn cytuno ai peidio. Mae eraill yn gwestiynau agored lle'r ydym yn gofyn am eich barn. Ni fyddwn yn gwneud casgliadau terfynol ac yn cynnig argymhellion ar gyfer diwygio nes byddwn wedi derbyn ac ystyried pob ymateb.

Gobeithio y bydd pawb yn gallu darllen y crynodeb hwn a dod i wybod am y prif faterion rydym yn eu trafod, ac ymateb i'r cwestiynau ymgynghori yn y ddogfen hon. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn i aelodau o'r cyhoedd a fyddai'n hoffi rhannu eu barn ond nad oes ganddynt gymaint o ddiddordeb o bosibl mewn darllen y trafodaethau a'r cwestiynau technegol, manylach.

Os oes gan unigolion neu sefydliadau ddiddordeb neu arbenigedd penodol yn un o'r meysydd rydym yn eu harchwilio, neu ym mhob un ohonynt, byddem yn eu hannog i ddarllen y papur ymgynghori llawn. Mae'n rhoi mwy o fanylion ac yn cynnwys cwestiynau eraill, mwy technegol.



# Ymateb i'n hymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Pwy ydyn ni** | Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth er mwyn diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| **Beth sydd dan sylw?** | Mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal adolygiad o'r gyfraith, canllawiau, ac ymarfer sy'n gysylltiedig â phroses treial mewn erlyniadau troseddau rhywiol ac yn ystyried yr angen i ddiwygio er mwyn cynyddu dealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol a gwella'r ffordd y caiff dioddefwyr eu trin tra'n sicrhau y bydd diffynyddion yn cael treial teg. |
| **Pam rydym yn ymgynghori?** | Rydym yn gofyn am farn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylid diwygio'r gyfraith troseddau, ac os dylid, sut. Hoffem wybod a ydych yn meddwl y dylai gael ei diwygio yn y ffyrdd a gynigir yn amodol gennym, a lle rydym yn gofyn cwestiynau agored, sut (os o gwbl) y dylid diwygio'r gyfraith. Mae ymgynghori yn elfen hollbwysig o'n gwaith. Mae arnom eisiau i unrhyw argymhellion y byddwn yn eu gwneud yn y pen draw fod â sail dystiolaeth cyn gryfed ag sy'n bosibl. |
| **Gan bwy rydym eisiau clywed?** | Hoffem glywed gan gymaint ag sy'n bosibl o randdeiliaid, gan gynnwys ymarferwyr cyfraith droseddol, sefydliadau gorfodi'r gyfraith, pobl sydd â phrofiad o droseddau rhywiol, neu sydd yn ddioddefwyr troseddau rhywiol, a'r darparwyr gwasanaeth sy'n eu cefnogi, defnyddwyr llysoedd, barnwyr, a grwpiau sy'n ymwneud â hawliau i dreial teg. |
| **Ble galla i ddarllen y papur ymgynghori llawn?** | Mae'r papur ymgynghori llawn i'w weld ar ein gwefan: **https://www.lawcom.gov.uk/project/evidence-in-sexual-offence-prosecutions/** |

| | |
|---|---|
| **Beth yw'r dyddiad cau?** | Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw 29 Medi 2023. |
| **Sut i ymateb** | Os ydych yn ymateb i'r papur ymgynghori llawn, byddem yn gwerthfawrogi ymatebion gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb sydd ar gael yn: **https://consult.justice.gov.uk/law-commission/evidence-in-sexual-offences**<br><br>Os ydych yn ymateb i'r cwestiynau ymgynghori cryno sydd yn y crynodeb hwn, byddem yn gwerthfawrogi ymatebion gan ddefnyddio'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar gael yn: **https://consult.justice.gov.uk/law-commission/summary-evidence-in-sexual-offences**<br><br>Fel arall, gallwch ymateb:<br>drwy ebost i **evidence.rasso@lawcommission.gov.uk**<br><br>drwy'r post i:<br>**Evidence in Sexual Offences Team, Law Commission, 1st Floor, 52 Queen Anne's Gate, Llundain, SW1H 9AG.**<br><br>(Os byddwch yn anfon eich sylwadau drwy'r post, byddai'n fuddiol, os yw'n bosibl, pe gallech eu hanfon yn electronig hefyd). |
| **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Ar ôl dadansoddi'r holl ymatebion, byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer diwygio, ac yn eu cyhoeddi mewn adroddiad. Y Llywodraeth fydd yn penderfynu a fydd yn gweithredu'r argymhellion ai peidio.<br><br>I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut y mae Comisiwn y Gyfraith yn cynnal ei ymgyngoriadau, a'n polisi ar gyfrinachedd ac anonymedd ymatebion ymgyngoreion, darllenwch y papur ymgynghori. |

## Pam y mae Comisiwn y Gyfraith yn gwneud y prosiect hwn?

Mae'r prosiect hwn gan Gomisiwn y Gyfraith yn llifo'n uniongyrchol o argymhelliad a wnaethpwyd yn Adolygiad Cynhwysfawr y Llywodraeth o Ymateb y System Cyfiawnder Troseddol i Dreisio ("yr Adolygiad Cynhwysfawr o Dreisio"). Gan ymateb yn fwyaf arbennig i ostyngiad mewn cyfraddau erlyn ac euogfarnu er 2016, roedd yr Adolygiad Cynhwysfawr o Dreisio yn edrych "ar dystiolaeth ar draws y system – o adrodd i'r heddlu i ganlyniadau yn y llys – er mwyn deall beth sy'n digwydd wrth gyhuddo, erlyn ac euogfarnu mewn achosion o dreisio oedolion a throseddau rhywiol difrifol yng Nghymru a Lloegr".[1] Un o ganlyniadau'r adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2021 oedd cais i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad o'r gyfraith sy'n ymwneud â thystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol difrifol.[2]

## Beth mae'r prosiect hwn yn ei wneud?

Mae'r Llywodraeth wedi gofyn i ni adolygu'r gyfraith, canllawiau ac ymarfer sy'n gysylltiedig â phroses treial mewn erlyniadau troseddau rhywiol ac ystyried a oes angen diwygio er mwyn cynyddu dealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol a gwella'r ffordd y caiff dioddefwyr eu trin tra'n sicrhau y bydd diffynyddion yn cael treial teg.

Gan fod ein hadolygiad yn ymwneud â defnyddio tystiolaeth mewn treialon, nid ydym at ei gilydd yn ystyried materion sy'n codi ar adegau eraill yn y broses cyfiawnder troseddo l. Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu nad ydym yn ystyried, er enghraifft, sut yr ymdrinnir â chwynion gan yr heddlu, sut yr ymchwilir i gwynion, sut y mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron yn cydweithio, sut y gwneir penderfyniadau cyhuddo, ceisiadau am fechnïaeth gan ddiffynyddion, neu ddedfrydu troseddwyr. Er hyn, os oes cysylltiad agos iawn rhwng rhywbeth sy'n digwydd cyn y treial a'r hyn sy'n digwydd yn y treial, neu os bydd diwygiadau ym mhroses y treial yn cael effaith ehangach, byddwn yn edrych yn ehangach. Er enghraifft, er mwyn archwilio diwygiadau posibl ar gyfer datgelu a derbynioldeb cofnodion cwnsela mewn treial mae angen ystyried sut a phryd y cafwyd mynediad i'r cofnodion hynny yn ystod ymchwiliad.

### Erlyniadau a phroses y treial

Caiff troseddau rhywiol eu rhoi ar brawf yn Llys y Goron, lle gwrandewir pob trosedd ddifrifol yng Nghymru a Lloegr at ei gilydd.

Os bydd diffynnydd yn pledio'n euog ni fydd treial ac ni fydd angen rheithgor. Yn hytrach, bydd barnwr yn clywed dadleuon ac yn ystyried tystiolaeth ynglŷn â beth ddylai'r ddedfryd briodol fod. Yna bydd y barnwr yn traddodi dedfryd. Mewn achosion trais rhywiol, mae tua 15% o'r diffynyddion yn pledio'n euog.[3]


Os bydd diffynnydd yn pledio'n ddieuog cynhelir treial gerbron barnwr a rheithgor. Bydd y barnwr yn penderfynu sut y bydd y treial yn mynd yn ei flaen, gan gynnwys penderfynu pa dystiolaeth ddylai gael ei chyflwyno i'r rheithgor. Y rheithgor yw'r "darganfyddwyr ffeithiau": gofynnir iddynt benderfynu, ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, beth sy'n wir. Ar ddiwedd y treial, os ydynt yn siŵr bod y diffynnydd wedi cyflawni'r drosedd bydd y rheithgor yn cael y diffynnydd yn euog.

1 Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Dreisio (2021) paragraffau 1, 3-5.

2 Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Dreisio (2021) t 17 a phara 114.

3 C Thomas, "Juries, rape and sexual offences in the Crown Court 2007-21" [2023] *Criminal Law Review* 200.

## Y siwrnai drwy'r system cyfiawnder troseddol




**Ein hadolygiad**

- y gyfraith bresennol a chanllawiau wedi'u cynllunio er mwyn gwrthsefyll camsyniadau am niwed rhywiol ("mythau trais rhywiol")
- cofnodion personol a gedwir gan drydydd partïon (gan gynnwys cofnodion cwnsela)
- tystiolaeth o ymddygiad rhywiol
- tystiolaeth o gymeriad
- hawliadau iawndal am anafiadau troseddol a'u perthynas â threialon troseddol
- mesurau arbennig a ddefnyddir i roi tystiolaeth
- cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth i achwynwyr
- y ffordd y cynhelir treialon gan farnwyr a chyfreithwyr
- cyfarwyddiadau barnwrol, addysg rheithwyr a derbynioldeb tystiolaeth arbenigol i wrthsefyll y risg y bydd mythau trais rhywiol yn dylanwadu ar reithgorau
- hawliau apelio
- diwygio cyfannol
- opsiynau radical ar gyfer diwygio

## Beth sydd y tu allan i gwmpas y prosiect hwn?

Ni fydd y prosiect hwn yn adolygu: proses treial sy’n ymwneud â throseddau rhywiol yn erbyn plant; y cyfreithiau sy’n rheoli adnabod achwynwr neu ddiffynnydd mewn achos troseddau rhywiol; diwygio’r diffiniad o gydsyniad a ddefnyddir yn Neddf Troseddau Rhywiol 2003 neu ddiwygio’r troseddau yn y statud hwnnw; neu gael tystiolaeth o ddyfeisiau digidol achwynwyr (fel ffonau neu gyfrifiaduron), ac eithrio i'r graddau y mae hyn yn codi mewn cysylltiad â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol neu gofnodion personol.

## Terminoleg

I adlewyrchu’r broses gyfreithiol, gan gynnwys y rhagdybiaeth bod unrhyw un sy’n cael ei gyhuddo o drosedd yn ddieuog nes caiff ei brofi’n euog, rydym yn defnyddio’r termau “diffynnydd” ac “achwynydd” wrth ystyried proses y treial. Ystyr bod rhywun yn cael ei gyhuddo o drosedd ydy bod yr heddlu yn ei gyhuddo’n ffurfiol o fod wedi cyflawni trosedd.

## Cyd-destun

Yn hanesyddol, i raddau helaeth, nid oedd cyflawnwyr trais rhywiol yn cael eu cosbi. Roedd rheolau cyfreithiol yn rhoi imiwnedd i wŷr ac roeddent yn seiliedig ar gredoau di-sail am drais rhywiol ac am fenywod, a oedd yn golygu ei bod yn anodd i ddioddefwyr trais rhywiol gael cyfiawnder. Ers y 1970au mae newidiadau i’r gyfraith a gweithdrefnau wedi ceisio gwneud profiad achwynwyr pan fydd achosion yn mynd i dreial yn llai trawmatig, a sicrhau mai dim ond tystiolaeth berthnasol sy’n cael ei derbyn ac nad yw credoau di-sail yn halogi’r broses o werthuso’r dystiolaeth, tra’n cadw amddiffyniadau treial teg gofalus.

Erbyn 2002, gellid dweud:

> Mae’r degawd diwethaf wedi gweld newid mawr yn y ffordd y mae barnwyr yn ystyried troseddau rhywiol. O ganlyniad i rywfaint o ymyriadau deddfwriaethol ac ymdrechion gan fudiadau menywod a dioddefwyr, mae’n ymddangos bod agweddau barnwrol wedi symud ymlaen fel nad yw dioddefwyr trais rhywiol mwyach yn cael eu gweld bob amser fel rhai sy’n dweud celwydd neu'n codi twrw er mwyn dial. Mae’r rheolau tystiolaethol sy’n ymwneud â throseddau rhywiol, mewn rhai agweddau, wedi datblygu i adlewyrchu hyn.[4]

Ac eto, 20 mlynedd yn ddiweddarach, **mae llawer o ymchwil, adroddiadau ac adolygiadau yn awgrymu bod y cynnydd a wnaethpwyd dros bum degawd o bosibl yn fwy bregus nag y gobeithid.** Mae llawer o dystiolaeth, yn enwedig dros y pum mlynedd diwethaf, yn awgrymu bod llawer o ddiffygion yn y ffordd y mae’r system cyfiawnder troseddol yn ymdrin â chwynion sy’n ymwneud â thrais rhywiol a throseddau rhywiol difrifol.

Mae dioddefwyr yn dal yn gyndyn o roi gwybod am drais rhywiol. Mae pryder o hyd ynglŷn ag ymatebion yr heddlu i ddioddefwyr ac ymchwilio i droseddau rhywiol.[5] Mae saith mis ar gyfartaledd rhwng yr adeg y caiff trais rhywiol ei

4 J Temkin, *Rape and the Legal Process* 2il arg (2002) t 267.

5 B Stanko, *Operation Soteria Bluestone Year 1 Report 2021-2022* (Rhagfyr 2022).

riportio a phan mae'r heddlu'n cyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron i benderfynu ynglŷn â'r cyhuddiad. Mae'n cymryd pedwar mis arall ar gyfartaledd nes bydd rhywun sydd dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo. Mae'n cymryd dwy flynedd o'r cam riportio i ddechrau treial.[6]

Yn y cyd-destunau hanesyddol a chyfoes hyn, mae ein hadolygiad wedi'i gyfyngu i broses y treial troseddol, ac o fewn hynny, mae'n canolbwyntio'n bennaf ar set benodol o faterion. Er hyn, mae proses y treial yn rhan annatod o'r ffordd y mae'r system gyfiawnder yn cael ei gweld yn ymateb i drais rhywiol, a'r ffordd y mae mewn gwirionedd yn gwneud hynny. Mae hyn yn golygu, er enghraifft, sicrhau bod gofynion tystiolaeth yn deg a bod modd eu cyflawni'n gyflym mewn ymchwiliadau, a sicrhau bod tystiolaeth orau'r achwynydd yn cael ei sicrhau a'i phrofi yn y ffordd leiaf trawmatig sy'n bosibl, gan sicrhau tegwch i'r diffynnydd drwy'r adeg.

Gobeithio y bydd diwygiadau i broses y treial o gymorth, nid yn unig er mwyn sicrhau cyfiawnder i achwynwyr a diffynyddion, ond hefyd er mwyn lleihau unrhyw wahaniaethau rhwng y ffordd y mae achwynwyr yn disgwyl y byddant yn cael eu trin a realiti triniaeth yn y llysoedd, fel bod newidiadau yn y llysoedd yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau eraill ar ymgysylltiad achwynwyr â'r system cyfiawnder troseddol.

## Mythau a chamsyniadau

Mae llawer o ymdrechion i ddiwygio wedi'u cyfeirio tuag at wrthsefyll neu atal y risg y gallai mythau a chamsyniadau am drais a niwed rhywiol ddylanwadu ar y broses cyfiawnder troseddol, gan gynnwys treialon troseddol.

Mae camsyniadau, mewn termau syml, yn golygu credoau, sydd er bod yr unigolyn yn gwbl ddidwyll, yn ffeithiol anghywir ac o bosibl yn deillio o stereoteipiau. Gallant fodoli mewn pobl sy'n llawn bwriadau da ac yn gyfiawn eu barn.

Mae camsyniadau am drais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol yn aml yn cael eu nodweddu fel "mythau trais rhywiol", a ddisgrifiwyd fel "agweddau a chredoau sydd at ei gilydd yn anghywir ond sy'n gyffredin ac yn barhaus,[7] neu "gredoau disgrifiadol neu ragnodol am ymosodedd rhywiol sy'n gwadu, bychanu neu gyfiawnhau ymddygiad rhywiol ymosodol a gyflawnir gan ddynion yn erbyn menywod ".[8,]

6 HMCPSI a HMICFRS, *Joint thematic inspection of the police and Crown Prosecution Service's response to rape: Phase 1* (2021) tt 46-47, Phase 2 (Chwefror 2022) t 82.

7 K Lonsway a L Fitzgerald, "Rape myths" (1994) 18 *Psychology of Women* 133, 134, dyfynnwyd yn J Temkin a B Krahé, *Sexual Assault and the Justice Gap: A Question of Attitude* (2008) t 34.

8 H Gerger et al, "The Acceptance of Modern Myths about Sexual Aggression (AMMSA) Scale: Development and validation in German and English" (2007) 33 *Aggressive Behaviour* 422.

## Mythau: realiti trais rhywiol

Mae'n gyffredin ers rhai blynyddoedd i nodi mythau a chamsyniadau mewn iaith syml, a darparu datganiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, o ymchwil cymdeithasol a seicolegol, sy'n dangos pa mor wahanol yw'r sefyllfa mewn gwirionedd. Mae eu mynegi fel hyn yn helpu i atal stereoteipiau a mythau di-sail sydd wedi bod wrth wraidd syniadau cyffredin y bydd nodweddion penodol i'w gweld os oes trais rhywiol "go iawn" wedi digwydd. Mae'r tabl isod yn dangos rhai o'r mythau cyffredin a beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos.[9]

| Myth neu gamsyniad | Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos |
|---|---|
| Dieithryn sy'n cyflawni trais rhywiol fel arfer. Fel arfer mae'n digwydd y tu allan, yn y nos, mewn lleoedd diarffordd. | Mae'r rhan fwyaf o'r achosion o drais rhywiol yn cael eu cyflawni gan bobl y mae'r dioddefwr yn eu hadnabod. Mae trais yn digwydd ar unrhyw adeg o'r dydd. Gan amlaf, mae trais rhywiol yn digwydd dan do, ac yn aml iawn mae dioddefwyr yn cael eu treisio yn eu cartrefi. (Ffynonellau: ONS; Kelly et al; Burrowes) |
| Mae trais rhywiol bob amser yn cynnwys grym corfforol. | Gall trais rhywiol gynnwys grym corfforol, ond nid o reidrwydd. Efallai y bydd bygythiadau o rym. Gall treiswyr ddefnyddio technegau ystrywgar i frawychu a gorfodi eu dioddefwyr. (Ffynonellau: ONS; Kelly et al) |
| Bydd trais bob amser yn gorfforol a/neu yn cael ei wrthwynebu yn eiriol. | Mae llawer o ddioddefwyr yn gwrthwynebu, mae llawer yn rhewi mewn ofn neu sioc, neu'n penderfynu y byddai gwrthwynebu yn ddi-fudd a/neu yn beryglus. Efallai y bydd gan y dioddefwr ofn cael ei ladd neu ei anafu'n ddifrifol, ac y bydd felly'n cydweithredu â'r treisiwr er mwyn arbed ei fywyd. Gall dioddefwyr gael eu parlysu'n gorfforol â braw neu sioc a methu â symud neu ymladd. Gall hunanwarchod/amddiffyn ddigwydd drwy ddaduno neu rewi – unrhyw ymdrech i atal, stopio neu gyfyngu ar y digwyddiad. (Ffynonellau: Kelly et al; Möller et al; Kozlowska et al; Murphy a Mason) |

9 ONS, Nature of sexual assault by rape or penetration, England and Wales: year ending March 2020 (18 Mawrth 2021); L Kelly et al, Section 41: an evaluation of new legislation limiting sexual history evidence in rape trials (Y Swyddfa Gartref, 2006); N Burrowes, Responding to the challenge of rape myths in court. A guide for prosecutors (Mawrth 2013); A Möller et al, "Tonic immobility during sexual assault – a common reaction predicting post-traumatic stress disorder and severe depression" (2017) 96 *Acta Obstetricia et Gynecologica Scandinavica* 932; K Kozlowska et al, "Fear and the Defense Cascade" (2015) 23 *Harvard Review of Psychiatry* 263; P Murphy ac F Mason, "Psychological Effects of Rape and Serious Sexual Assault" yn P Rook ac R Ward, *Sexual Offences Law and Practice* (6ed arg 2021); G Walker, "The (in)significance of genital injury in rape and sexual assault" (2015) 34 *Journal of Forensic and Legal Medicine* 173; R George ac S Ferguson, Review into the Criminal Justice System response to adult rape and serious sexual offences across England and Wales Research Report (Llywodraeth EM, Mehefin 2021); J Molina ac S Poppleton, *Rape Survivors and the Criminal Justice System* (Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr, Hydref 2020); S Hodge a D Canter, "Victims and perpetrators of male sexual assault" (1998) 13 *Journal of Interpersonal Violence* 222; D Mitchell et al, "Attributions of Victim Responsibility, Pleasure, and Trauma in Male Rape" (1999) 36 *Journal of Sex Research* 369. Gweler hefyd: Canllawiau Cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron, Rape and Sexual Offences, (Mai 2021), P 4: Tackling Rape Myths and Stereotypes, Atodiad A; Compendiwm Llys y Goron, 20-1, "Sexual offences – The dangers of assumptions".

| Myth neu gamsyniad | Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddangos |
|---|---|
| Mae trais rhywiol bob amser yn arwain at anaf corfforol. | Nid yw trais rhywiol bob amser yn gadael arwyddion gweledol ar gorff neu organau cenhedlu y dioddefwr. Mae lleiafrif o'r achosion o drais sy'n cael eu riportio yn cynnwys anafiadau allanol neu fewnol mawr. (Ffynonellau: ONS; Walker; Kelly et al) |
| Bydd trais rhywiol yn cael ei riportio ar unwaith bob amser. | Nid yw'r rhan fwyaf o'r achosion o drais rhywiol byth yn cael eu riportio i'r heddlu. Mae llawer o resymau pam nad yw pobl yn riportio, neu eu bod yn oedi cyn riportio, gan gynnwys trawma, cywilydd, dryswch, neu ofni'r canlyniadau. (Ffynonellau: ONS; George a Ferguson; Burrowes; Kelly et al; Molina a Poppleton) |
| Ar ôl trais rhywiol, mae pob dioddefwr yn ymateb yr un fath. Bydd gwir ddioddefwyr trais rhywiol bob amser yn edrych yn drallodus wrth ddisgrifio beth ddigwyddodd. | Mae ymatebion i drais rhywiol yn amrywio'n fawr. Gall ymatebion gynnwys trallod eithafol, rheolaeth dawel, sioc a gwadu. (Ffynonellau: Burrowes; Kelly et al; Murphy a Mason) |
| Dim ond dynion hoyw sy'n treisio dynion eraill. Dim ond dynion hoyw sy'n cael eu treisio. | Mae dynion sy'n treisio dynion eraill yn aml yn heterorywiol, ac mae eu dioddefwyr hefyd yn aml yn heterorywiol. (Ffynonellau: Burrowes; Hodge a Canter; Mitchell et al) |
| Mae honiadau o drais rhywiol yn aml yn anwir. | Mae honiadau anwir yn anghyffredin iawn. Nid yw'r dystiolaeth yn cefnogi amheuaeth gyffredinol o achwynwyr trais rhywiol. (Ffynonellau: Kelly, Lovett a Regan; Rumney a McCartan; Lisak et al; Saunders) |

## Effeithiau mythau a chamsyniadau

Nid yw mythau a chamsyniadau am drais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol wrth wraidd pob problem sy'n gysylltiedig ag erlyn troseddau rhywiol, ond mae eu heffeithiau yn niweidiol ac yn treiddio drwy bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Nid ydynt yn perthyn yn neilltuol i'r system gyfiawnder troseddol, ond maent yn effeithio arni oherwydd eu bod yn cael eu derbyn yn y gymdeithas ehangach.

Gallant gael eu derbyn gan bobl sy'n gweithio yn y system gyfiawnder troseddol ac yn ymwneud â hi, gan gynnwys barnwyr a chyfreithwyr, diffynyddion, achwynwyr a rheithwyr.

Cafwyd ymdrechion pwysig i fynd i'r afael â'r risg y gallai mythau ddylanwadu ar dreialon troseddol. Mae gan Wasanaeth Erlyn y Goron ganllawiau helaeth i erlynwyr, sy'n cyfeirio at fythau a realiti, a sut y gellir chwalu mythau wrth adeiladu achos ac mewn eiriolaeth.[10]

10 Canllawiau Cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron, Sexual Offences: Tackling Rape Myths and Stereotypes (Mai 2021).

Mae Compendiwm Llys y Goron y Coleg Barnwrol yn darparu cyfarwyddyd barnwrol enghreifftiol i'r rheithgor ar osgoi tybiaethau am drais rhywiol a throseddau rhywiol eraill:

**Gwyddom nad oes trais rhywiol nodweddiadol, treisiwr nodweddiadol na pherson nodweddiadol sy'n cael ei dreisio. Gall trais rhywiol ddigwydd mewn unrhyw amgylchiadau bron. Gall ddigwydd rhwng pobl o bob math, yn aml iawn pan mae'r bobl dan sylw yn adnabod ei gilydd neu hyd yn oed yn perthyn i'w gilydd. Gwyddom hefyd nad oes ymateb nodweddiadol i drais rhywiol. Gall pobl ymateb i drais rhywiol mewn llawer o wahanol ffyrdd. Efallai fod yr ymatebion hyn yn wahanol i'r hyn y byddech yn ei ddisgwyl, neu i'r hyn y byddech chi'n ei wneud yn yr un sefyllfa.**

**Compendiwm Llys y Goron, 20-4, Enghraifft 1**

Nid oes un strategaeth unigol ar gyfer atal dylanwad mythau a chamsyniadau mewn treialon troseddau rhywiol. I'r gwrthwyneb, rhaid mynd i'r afael â hwy o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys drwy fynd i'r afael â derbyn mythau a chamsyniadau yn y gymdeithas ehangach.

Yn y papur ymgynghori hwn rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar broses y treial. Os yw'n ymddangos bod risg y gallai mythau a chamsyniadau ddal i gael effaith er gwaethaf ymdrechion i atal eu dylanwad, rydym yn ceisio mynd i'r afael â hynny.

### Rheithgorau

Nid yw'n glir i ba raddau y mae mythau trais rhywiol yn effeithio ar drafodaethau a phenderfyniadau rheithgorau. Un her a wynebir gan ymchwilwyr yw bod y gyfraith yn gwahardd rhywun rhag gofyn i reithwyr sut y penderfynwyd ar ddyfarniadau ac yn gwahardd rheithwyr rhag datgelu gwybodaeth am hynny. Oherwydd y cyfyngiadau hyn, mae astudiaethau wedi defnyddio "ffug reithgorau" i brofi a oes effeithiau. Mae corff helaeth o ymchwil wedi dod i'r casgliad bod mythau trais rhywiol yn cael effaith. O ganlyniad, mae'r gyfraith wedi ceisio atal y risg y gallai rheithgorau ddefnyddio mythau a chamsyniadau drwy amryfusedd wrth werthuso dibynadwyedd adroddiad yr achwynydd neu'r diffynnydd a ffurfio barn ynglŷn ag euogrwydd y diffynnydd. Dim ond un astudiaeth sydd wedi'i gwneud gyda rheithwyr go iawn yng Nghymru a Lloegr, a oedd yn ôl yr awdur yn awgrymu bod mythau trais rhywiol yn cael llawer llai o ddylanwad nag y mae'r astudiaethau ffug reithgor yn ei ddangos.[11] Er hyn, mae pen draw i'r casgliadau y gellir eu gwneud o'r astudiaeth honno – yn fwyaf arbennig, nid oedd yn gallu taflu goleuni ar y ffordd y mae rheithwyr yn gwneud penderfyniadau.[12] Mae'n dal yn ddoeth i symud ymlaen ar y sail bod risgiau gwirioneddol y gallai rheithgorau cydwybodol, cyfiawn eu barn hyd yn oed, â'r bwriadau gorau, trwy amryfusedd gael eu dylanwadu gan fythau trais rhywiol, a dylai strategaethau diwygio geisio lleihau risgiau o'r fath.

11 C Thomas, "The 21st century jury: contempt, bias and the impact of jury service" [2020] *Criminal Law Review* 987.

12 J Chalmers, F Leverick a V Munro, "Why the jury is, and should still be, out on rape deliberation" [2021] *Criminal Law Review* 753, 755; E Daly et al, "Myths about myths? A comment on Thomas (2020) and the question of jury rape myth acceptance" (2023) 7 *Journal of Gender-Based Violence* 189.

## Hawl y diffynnydd i dreial teg



Mae hawl y diffynnydd i dreial teg yn "**hawl gyfansoddiadol sylfaenol** sy'n cael ei chydnabod mewn cyfraith gyffredin ac yn cael ei gwarantu gan y [Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR")] ac offerynnau hawliau dynol rhyngwladol eraill".[13] Mae'n cael ei diogelu gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sy'n ymgorffori erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol mewn cyfraith ddomestig.

Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol hefyd yn nodi bod yn rhaid i wladwriaethau sicrhau parch i fywyd preifat. Os bydd gwrthdaro rhwng hawl diffynnydd i dreial teg a hawl achwynydd i barch i'w fywyd preifat bydd y llysoedd yn ceisio sicrhau cydbwysedd. Mae hyn yn golygu y gellid "cymryd mesurau at ddiben amddiffyn y dioddefwr, cyn belled bod modd cysoni mesurau o'r fath ag ymarfer hawliau'r amddiffyniad yn ddigonol ac yn effeithiol."[14]

Nid yw cywiro diffygion yn y ffordd y caiff achwynwyr eu trin yn golygu esgeuluso neu danseilio hawl absoliwt diffynnydd i dreial teg. Mae'r hawl yn rhan annatod o reol y gyfraith, proses droseddol, a chyfiawnder yn y llysoedd lle mae pwerau'r wladwriaeth yn cael eu trefnu yn erbyn diffynnydd y mae ei ryddid yn y fantol.

Er hyn, nid yw'r hawl yn cael ei diogelu gan amheuaeth sy'n seiliedig ar fythau a chamsyniadau am drais rhywiol nad oes ganddynt sylfaen dystiolaethol. Yn hytrach, **mae'r hawl i dreial teg yn cael ei hamddiffyn gan fesurau diogelu trwyadl, sylweddol a gweithdrefnol sy'n galluogi diffynnydd i gyflwyno a phrofi tystiolaeth sy'n berthnasol i'r ffeithiau dan sylw, heb drawma diangen i'r achwynydd**. Mae natur troseddau rhywiol a rhoi tystiolaeth yn golygu na fydd y potensial i ailbrofi'r trawma byth yn diflannu, ond dylid manteisio ar gyfleoedd i leihau'r risg lle nad ydynt yn tanseilio hawliau treial teg.

Ym mhob rhan o'n papur ymgynghori rydym wedi ystyried hawl y diffynnydd i dreial teg ac a fyddai unrhyw ddiwygiadau posibl yn creu risg na fyddai treial y diffynnydd yn deg. Rydym wedi cynllunio'r diwygiadau a gynigir gennym yn amodol er mwyn sicrhau bod hawl y diffynnydd i dreial teg yn cael ei pharchu.

## Diwygio: yn unigol ac yn gyfannol


Rydym yn ystyried yr achos dros ddiwygio rhannau o broses y treial sydd ar wahân, ond yn gysylltiedig, ac yn ystyried mathau o dystiolaeth. Mae gennym hefyd ddiddordeb yn y dirwedd ddiwygio yn fwy cyfannol. Yn ein papur ymgynghori rydym wedi ystyried sut y mae'n bosibl y bydd angen mynd ar ôl rhai diwygiadau mewn meysydd ar wahân gyda'i gilydd er mwyn iddynt fod yn effeithiol, a sut y gallai rhai gael effeithiau cronnus, neu ganlyniadau anfwriadol posibl. Rydym yn awyddus i glywed gan ymgyngoreion beth yw eu barn am ddiwygio yn gyffredinol. Yn unol â hyn gofynnwn i chi ystyried wrth i chi ddarllen y gwahanol rannau: sut maen nhw'n ffitio gyda'i gilydd; a yw cymryd y syniadau diwygio, neu rai ohonynt, gyda'i gilydd yn cael unrhyw effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol; a ddylid blaenoriaethu unrhyw rai? Gallwch rannu eich barn yn y cyswllt hwn drwy ymateb i Gwestiwn 28 yn y Crynodeb o'r Ymgynghoriad.

13 *R v DPP (Ex parte Kebilene ac eraill)* [2000] 2 AC 326, 342 (Yr Arglwydd Bingham).

14 *SN v Sweden* Rhif y Cais 34209/96 yn [47]; *Aigner v Austria* Rhif y Cais 28328/03 yn [37].

# Cofnodion personol a gedwir gan drydydd partïon

Mae cofnodion meddygol neu gofnodion cwnsela yn cynnwys geiriau sy'n cael eu dweud gennym ni ac amdanom ni sydd – boed yn gywir neu'n anghywir, boed yn ffaith neu'n farn, boed yn y gorffennol neu'r presennol – yn bersonol iawn ac yn cynnwys deunydd na fyddem yn dymuno i bobl eraill eu gweld neu wybod amdanynt. Ac eto, mewn achos o drais rhywiol, efallai y bydd angen i'r heddlu ac erlynwyr gael mynediad at gofnodion sy'n cynnwys gwybodaeth o'r fath am yr achwynydd, eu datgelu i'r diffynnydd, a'u defnyddio fel tystiolaeth mewn achos troseddol.




Dim ond un math o gofnodion personol a all fod yn nwylo trydydd parti yw cofnodion meddygol neu gofnodion cwnsela. Mae trydydd parti yn unigolyn, sefydliad, neu adran o'r llywodraeth ar wahân i'r ymchwilydd a'r erlynydd. Gall cofnodion personol a gedwir gan drydydd partïon hefyd gynnwys cofnodion a gedwir, er enghraifft, gan ysgolion, awdurdodau mewnfudo, gwasanaethau plant a theuluoedd, a chyflogwyr.

## Terminoleg

**"Mynediad":** darperir cofnodion i'r heddlu a'r erlyniad â chaniatâd yr achwynydd a deiliad y cofnodion ("mynediad drwy ganiatâd"), neu mae'r heddlu a'r erlyniad yn gofyn am orchymyn llys i gael y cofnodion er mwyn iddynt allu ystyried a yw'r cofnodion yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ("mynediad drwy orfodaeth i ddangos").

**"Datgelu":** os yw'r cofnodion yn cynnwys deunydd y bydd yr erlyniad yn dibynnu arno, neu ddeunydd y byddai'n rhesymol ystyried y gallai danseilio achos yr erlyniad neu gynorthwyo achos y diffynnydd, rhaid rhoi'r cofnodion i'r amddiffyniad.

**"Derbynioldeb":** penderfyniad gan y llys y gellir defnyddio cofnodion fel tystiolaeth yn y treial. Gallai gwahanol fathau o dystiolaeth fod yn ddarostyngedig i wahanol brofion, neu drothwyon, i alluogi'r llys i wneud ei benderfyniad.

Ar hyn o bryd, nid oes set benodol o gyfreithiau ar gyfer achosion troseddau rhywiol sy'n rheoli mynediad at gofnodion personol gan yr heddlu a'r erlyniad, datgelu cofnodion i'r amddiffyniad, a derbynioldeb cofnodion mewn treial. Yn hytrach, rheolir y materion hyn gan gyfuniad o wahanol gyfreithiau a chanllawiau. Y canlyniad yw bod bylchau ac anghysonderau yn y fframwaith cyfreithiol, ynghyd â throthwyon annigonol o uchel ar gyfer derbynioldeb, sy'n arwain at risg y bydd mythau a chamsyniadau'n cael effaith. Mae ymwthiadau i breifatrwydd achwynwyr nad ydynt bob amser yn angenrheidiol, yn gymesur, neu'n cael eu gwneud â chraffu barnwrol. Mae diddordeb cyhoeddus amlwg mewn sicrhau bod achwynwyr yn cael triniaeth iechyd meddwl ac eto nid yw'n amlwg a yw'r system bresennol yn gwneud hynny'n dda. Mae pwyslais anghymesur ar gefndir a chofnodion personol yr achwynydd, nad yw i'w weld mewn cyd-destunau troseddol tebyg eraill. Byddai creu system cofnodion personol sy'n benodol i droseddau rhywiol yn rhoi sylw i hyn a byddai'n gyson ag agweddau eraill ar y gyfraith lle mae triniaeth wahaniaethol briodol i achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol.

**Cwestiwn 1 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid cael system unedig, bwrpasol ar gyfer troseddau rhywiol, i reoli mynediad yr heddlu a'r erlyniad at gofnodion personol achwynwyr a gedwir gan drydydd partïon, datgelu cofnodion o'r fath i'r amddiffyniad, a derbynioldeb cofnodion o'r fath mewn treial. A ydych yn cytuno?

Rydym yn troi nawr i edrych ar beth allai nodweddion system bwrpasol fod.

## Pa gofnodion ddylai gael eu cynnwys mewn system bwrpasol?

Mewn rhai awdurdodaethau mae categorïau penodol o gofnodion personol sydd â darpariaethau pwrpasol. Er enghraifft, yn Ne Cymru Newydd ac Iwerddon mae cyfreithiau sy'n gymwys i gofnodion cwnsela yn unig. Yn yr Alban mae darpariaethau penodol ar gyfer "cofnodion personol sensitif". Yng Nghanada, fodd bynnag, nid yw'r system yn seiliedig ar gategorïau. Yn hytrach, mae'n cyfeirio at "unrhyw fath o gofnod sy'n cynnwys gwybodaeth bersonol y byddai'n rhesymol disgwyl preifatrwydd iddi". Mae'r rhain yn cynnwys cofnodion meddygol, seiciatrig, therapiwtig, cwnsela, addysg, cyflogaeth, lles plant, mabwysiadu a gwasanaethau cymdeithasol, dyddlyfrau personol a dyddiaduron.

Rydym yn gweld dull gweithredu Canada yn un argyhoeddiadol. Mae cais i ddangos, datgelu neu dderbyn cofnodion personol achwynydd yn effeithio ar ei hawl i breifatrwydd. Gall yr hawl hon i breifatrwydd godi ni waeth ble neu gan bwy y mae'r wybodaeth breifat honno wedi'i chofnodi.

**Cwestiwn 2 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai unrhyw system sy'n rheoleiddio dangos, datgelu a derbynioldeb cofnodion personol proffesiynol a gedwir gan drydydd partïon fod yn gymwys i gofnodion lle byddai'n rhesymol i'r achwynydd ddisgwyl preifatrwydd. A ydych yn cytuno?

## A ddylid gwahardd defnyddio cofnodion cwnsela a therapi achwynwyr yn gyfan gwbl?

Gan gymryd y byddai'r cynnig amodol uchod yn cynnwys ystod eang o gofnodion personol, rydym yn ystyried a oes achos dros waharddiad llwyr ar fynediad at rai cofnodion fel na fydd modd eu defnyddio mewn erlyniadau troseddau rhywiol.

Yn y papur ymgynghori llawn rydym yn edrych yn fanwl ar wahanol gategorïau o gofnodion, gan gynnwys a ddylid gwahardd mynediad at gofnodion sy'n cefnogi achwynwyr. Byddai hyn yn cynnwys cofnodion a gedwir gan weithwyr proffesiynol sy'n cefnogi achwynwyr a thystion mewn treialon, fel Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (sy'n darparu cefnogaeth ac arweiniad i ddioddefwyr trais rhywiol, gan gynnwys yn y llys, er nad yn gyfyngedig i hynny), cefnogwyr tystion (sy'n cefnogi tystion yn ystod achosion llys) a chyfryngwyr (sy'n darparu cyngor a chefnogaeth i dystion sydd angen cymorth cyfathrebu i gymryd rhan yn effeithiol yn y llys). Yn y crynodeb hwn, fodd bynnag, rydym yn canolbwyntio ar y categori o gofnodion sydd wedi cael ei drafod amlaf gan grwpiau ymgyrchu ac y mae cryn bryder yn ei gylch: **cofnodion cwnsela neu therapi**.

Cofnodwyd ers tro bod goroeswyr trais rhywiol yn teimlo'n euog ac yn beio eu hunain, er nad oedd unrhyw fai arnyn nhw. Un broblem arbennig wrth ddefnyddio cofnodion therapi fel dangosyddion neu dystiolaeth o annibynadwyedd yw eu bod wedi dod i fodolaeth mewn amgylchiadau trawma ac at ddibenion nad ydynt yn ymwneud â rhesymeg treial troseddol. Fel y dywedodd Gotell, mae therapi yn cael unigolyn i gymryd rhan mewn "math o ddeialog sy'n ceisio gwneud synnwyr o'r trais rhywiol nad yw'n ffitio i fodelau cyfreithiol euogrwydd neu ddieuogrwydd [ac sy'n] adlewyrchu cysyniad anghyfreithiol o drais rhywiol sy'n disgrifio teimladau o dramgwydd".[15]

Gan nad oes gwaharddiad ar ddefnyddio cofnodion therapi, sef y sefyllfa bresennol, gallai achwynwyr ddewis peidio â chael therapi, oedi cyn cael therapi, neu gael therapi mwy cyfyngedig oherwydd eu bod yn ofni y gallai cynnwys eu trafodaethau therapiwtig gael ei ddatgelu i'r amddiffyniad a/neu y gallai'r ffaith eu bod wedi cael therapi effeithio ar yr ymchwiliad neu'r erlyniad. Ar y llaw arall, efallai y bydd achwynwyr yn dewis peidio â riportio neu yn rhoi'r gorau i gefnogi ymchwiliad neu erlyniad er mwyn iddynt allu cael therapi.

Mae mesurau yn eu lle i leihau'r risgiau hynny. Yn ôl Canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron y "ffactor a ddylai fod yn penderfynu a yw unigolyn yn gofyn am therapi cyn treial, pryd, a gyda phwy, bob amser yw iechyd a lles yr achwynydd", ac "nid oes rhaid oedi therapi oherwydd bod ymchwiliad gan yr heddlu neu erlyniad yn mynd rhagddo". Mae'r canllawiau hefyd yn nodi na ddylid gwneud unrhyw ymholiadau tybiannol ac na ddylid gwneud cais am fwy o ddeunydd nag sydd ei angen.[16] Er hyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i ymgynghoriad gan y Swyddfa Gartref yn ddiweddar fod ceisiadau weithiau yn anghymesur ac yn ddiangen.[17]



15 L Gotell, "The Ideal Victim, the Hysterical Complainant, and the Disclosure of Confidential Records: The Implications of the Charter for Sexual Assault Law" (2002) 40 *Osgoode Hall Law Journal* 251, 258.

16 Canllawiau Cyfreithiol Gwasanaeth Erlyn y Goron, Sexual Offences: Pre-trial Therapy (Mai 2022).

17 Y Swyddfa Gartref, *Police requests for third party material: consultation response* (2022) t 4.

Dim ond mewn un awdurdodaeth (Tasmania) y mae gwaharddiad ar ddefnyddio cofnodion therapi cyn treial. Mae awdurdodaethau eraill yn defnyddio trothwyon uwch a gofynion gweithdrefnol i gyfyngu ar yr hyn y gellir cael mynediad ato a phryd. Yn ystod y broses ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad, nid oedd y rhanddeiliaid yn cefnogi gwaharddiad llwyr. Hyd yn oed o blith y rhanddeiliaid hynny a oedd yn cefnogi mwy o amddiffyniad i gofnodion therapi cyn treial, ni wnaeth neb awgrymu gwaharddiad llwyr ar eu defnyddio.

Ein casgliad amodol yw nad yw gwaharddiad llwyr yn briodol ac, fel yr eglurwn isod, y llwybr gorau yw amddiffyniadau cryfach drwy broses, craffu a throthwyon. Y broblem â gwaharddiad llwyr yw y bydd adegau o bosibl pan fydd cofnod therapi cyn treial yn cynnwys gwybodaeth berthnasol, megis nodyn o'r achwynydd yn tynnu'r honiad yn erbyn y diffynnydd yn ôl. Er mwyn diogelu hawl y diffynnydd i dreial teg, dylai'r datgeliad a'r fframwaith derbynioldeb, mewn rhai amgylchiadau wedi'u diffinio, wahardd dangos, adolygu, datgelu a derbyn cofnod therapi cyn treial fel rhan o'r ymchwiliad a phroses y treial. Mae fframwaith sy'n nodi na chaiff gwybodaeth o'r natur hon byth ei chael, dangos neu ystyried ar gyfer datgeliad os yw mewn cofnodion therapi cyn treial, yn achosi risg sylweddol i degwch unrhyw dreial dilynol.

### Cwestiwn 3 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Ein barn amodol yw na ddylid cael gwaharddiad llwyr ar fynediad, datgelu neu dderbynioldeb cofnodion therapi cyn treial mewn achosion troseddau rhywiol. A ydych yn cytuno?

## Gweithdrefn

Mae'r weithdrefn ar gyfer cofnodion personol yn dechrau pan fydd yr heddlu a'r erlyniad yn cael cofnodion. Gall hyn ddigwydd ar sail cydsyniad neu yn dilyn gorchymyn llys sy'n gorfodi deiliad cofnodion i ddangos y cofnodion. Ar ôl hyn, bydd angen ystyried datgelu i'r amddiffyniad a derbynioldeb fel tystiolaeth mewn treial.

Wrth adolygu'r prosesau ar gyfer mynediad, dangos a datgelu, mae'r papur ymgynghori llawn yn amlinellu'r trefniadau presennol, dulliau a ddefnyddir mewn awdurdodaethau eraill, a sylwadau rhanddeiliaid yn ystod y broses ymgysylltu cyn yr ymgynghoriad. Mae'n gofyn nifer o gwestiynau yn ymwneud â'r gwahanol gamau. Rydym yn annog darllenwyr sydd â diddordeb neu arbenigedd penodol yn y maes hwn i ddarllen ac ymateb i'r drafodaeth fanwl. Yn y crynodeb hwn rydym yn amlinellu'n fyr rai o'r prif themâu a chwestiynau.

### Mynediad at gofnodion drwy gydsyniad

Ar hyn o bryd, os yw achwynydd yn cydsynio y caiff yr heddlu a'r erlyniad weld deunydd trydydd parti – oni bai fod deiliad y cofnod yn gwrthwynebu – bydd yr heddlu'n cael y cofnodion. Nid oes proses i farnwr graffu ar y cais. Bydd y sefyllfa yr un fath cyn ac ar ôl cyhuddiad. Mae'r sefyllfa'n debyg mewn awdurdodaethau y gellir eu cymharu. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi pryder y gallai cydsyniad gael ei roi mewn amgylchiadau lle mae achwynwyr yn dioddef o effeithiau trawma a lle gallai gwrthod cydsynio olygu bod yr heddlu yn methu â mynd ag ymchwiliad yn ei flaen neu nad yw rhywun sydd dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo.

Rydym yn croesawu barn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylid cael mesurau a fyddai'n rhoi mwy o amddiffyniad i achwynwyr. Ein casgliad amodol yw y dylid cael rhai mesurau, a gallai'r rhain fod ar ffurf gofynion deddfwriaethol yn hytrach na chanllawiau, gwell cefnogaeth i ddeiliaid cofnodion,[18] cymorth cyfreithiol i achwynwyr, neu ryw gyfuniad o fesurau. Nid yw ein cynnig amodol yn cynnwys craffu barnwrol oherwydd byddai hyn yn rhoi pwysau sylweddol ar adnoddau llysoedd, ond nid ydym yn diystyru gwerth posibl hyn.

**Cwestiwn 4 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Cyn belled bod deiliad y cofnodion hefyd yn cydsynio i ganiatáu mynediad, os rhoddir mesurau amddiffynnol yn eu lle ar gyfer achwynwyr sy'n cydsynio i ganiatáu mynediad, beth ddylai'r mesurau hyn fod?

## Mynediad at gofnodion drwy orfodaeth i ddangos

Ar hyn o bryd, gofynnir am orfodaeth i ddangos gan ddefnyddio gweithdrefn gwŷs tystio dan Ddeddf Trefniadaeth Droseddol (Presenoldeb Tystion) 1965. Ni all yr heddlu ac erlynwyr ofyn am orfodaeth i ddangos nes bydd rhywun sydd dan amheuaeth wedi cael ei gyhuddo. Mae hyn yn cynnwys amgylchiadau lle mae achwynydd wedi cydsynio i ganiatáu mynediad ond mae deiliad cofnodion yn gwrthod caniatáu mynediad. Yn y papur ymgynghori llawn rydym yn gofyn a ddylai'r heddlu ac erlynwyr allu gofyn am orfodaeth i ddangos cyn ac ar ôl cyhuddiad. Rydym yn dod i'r casgliad yn amodol, ar ôl i ddiffynnydd gael ei gyhuddo, os oes rheswm da i feddwl y gallai tystiolaeth helpu i brofi ei fod yn ddieuog, bod dyletswydd ar y wladwriaeth i sicrhau ac adolygu'r dystiolaeth honno.

Ein barn amodol yw bod yr hawl i gael mynediad at gofnodion drwy orfodaeth i ddangos yn rhan bwysig o'r broses cyfiawnder troseddol ac y dylid ei chadw, lle mae naill ai'r achwynydd neu ddeiliad cofnodion wedi gwrthod cydsynio (neu mae'r ddau wedi gwneud).

## Datgelu i'r Amddiffyniad

Ar hyn o bryd mae penderfyniadau yn ymwneud â datgelu deunydd trydydd parti yn cael eu gwneud gan yr erlyniad. Nid oes craffu gan farnwr oni bai fod yr achwynydd a/neu ddeiliad y cofnodion wedi gwrthod caniatâd. Yn yr amgylchiadau hynny, bydd barnwr yn penderfynu a ellir cadw'r deunydd oddi wrth yr amddiffyniad. Bydd barnwr hefyd yn gwneud penderfyniad pan fydd yr amddiffyniad yn gwneud cais am ddatgeliad.

Ein barn amodol yw ei bod yn bwysig rhoi mwy o ran i farnwyr. Gallai helpu i sicrhau gwerthusiadau cyson, tryloyw a phriodol o berthnasedd y dystiolaeth, a sicrhau cydbwysedd rhwng yr holl fuddiannau sy'n gysylltiedig â defnyddio cofnodion personol. Yn ogystal, ein barn amodol yw na ddylai cydsynio i ganiatáu mynediad neu i ddatgelu gymryd lle'r gofyniad am ganiatâd barnwrol. Mae awdurdodiad barnwrol yn helpu i leihau'r risg y bydd deunydd trydydd parti yn cael ei ddatgelu i'r amddiffyniad ac, yn ei dro, yn lleihau'r risg y bydd y cwnsel yn defnyddio mythau trais rhywiol. Nid yw awdurdodiad barnwrol yn achosi risg i hawliau'r diffynnydd i dreial teg; mae'n sicrhau y caiff deunydd sy'n bodloni'r prawf datgelu ei ddatgelu, ond na chaiff deunydd arall ei ddatgelu. Mae cydsyniad yr achwynydd yn bwysig ond mae diddordeb cyhoeddus hefyd yng nghyfrinachedd cofnodion cleifion ac mae gofyn am awdurdodiad barnwrol beth bynnag yw'r amgylchiadau yn fwy effeithiol ar gyfer hynny.

18 Enghraifft o hyn yw'r Subpoena Survival Guide a gyhoeddwyd i ddeiliaid cofnodion yn Ne Cymru Newydd (Legal Aid NSW a Women's Legal Service NSW, 2016).

### Cwestiwn 5 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod angen caniatâd barnwrol er mwyn datgelu cofnodion personol a gedwir gan drydydd partïon. A ydych yn cytuno?

Rydym yn cynnig yn amodol na ddylai cydsyniad yr achwynydd i ganiatáu mynediad neu i ddatgelu ddileu'r gofyniad am ganiatâd barnwrol. A ydych yn cytuno?

## Beth ddylai'r trothwy fod?

Un o'r pryderon mwyaf a godwyd gan randdeiliaid yw nad yw'r cyfreithiau presennol yn darparu ar gyfer digon o graffu i weld a yw'r deunydd mewn cofnodion personol yn berthnasol ac, os ydynt, o werth tystiolaethol digonol i warantu eu dangos, eu datgelu neu eu derbyn yn yr holl amgylchiadau. Yn fyr, y ddadl yw bod y bar wedi'i osod yn rhy isel ac y byddai'r hyn y gellid ei alw yn brawf "perthnasedd uwch" yn fwy priodol na'r prawf perthnasedd syml sy'n bodoli ar hyn o bryd. Rydym wedi adolygu'r gyfraith mewn awdurdodaethau eraill a chredwn fod dull gweithredu Canada yn un argyhoeddiadol. Mae'n darparu ar gyfer craffu barnwrol ym mhob cam ac yn amlinellu ffactorau sy'n darparu strwythur i ymarfer disgresiwn barnwrol. Mae rhan y barnwr yn arwyddocaol, ond fel y dywedodd barnwr yng Nghanada, "er bod y dasg yn cymryd llawer o amser" mae ei hangen er mwyn sicrhau cydbwysedd rhwng y gwahanol hawliau a buddiannau.[19]

Rydym yn sylwi bod adolygiad seneddol yn y wlad honno wedi canfod bod y cyfreithiau yno wedi lleihau patrymau ceisiadau amhriodol a sicrhau "cydbwysedd priodol rhwng buddiannau gwrthgyferbyniol achwynwyr a diffynyddion yng nghyd-destun unigryw treialon troseddau rhywiol".[20]

Mae ein cynigion amodol yn seiliedig ar gyfreithiau Canada. Mae'r un cyntaf yn ymwneud â gorfodaeth i ddangos a datgelu. Mae'r ail yn ymwneud â derbynioldeb.

19 Hansard (NSW Legislative Council), 22 Hydref 1997, tt 11329 (Anrh A G Corbett), yn dyfynnu *R v KAD*, heb ei adrodd, Ontario Court of Justice – Provincial Division, 29 Gorffennaf 1994, dyfynnwyd yn A Cossins ac R Pilkinton, "Balancing the scales: the case for the inadmissibility of counselling talsin sexual assault trials" (1996) 19 *University of New South Wales Law Journal* 222, 254.

20 Senate Standing Committee on Legal and Constitutional Affairs, Statutory Review on the Provisions and Operation of the Act to amend the Criminal Code (production of records in sexual offence proceedings): Final Report (Rhagfyr 2012) t 13.

### Cwestiwn 6 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Ar gyfer **gorfodaeth i ddangos** i'r heddlu neu erlynwyr (neu ar gyfer **datgelu i'r amddiffyniad**), rydym yn cynnig yn amodol brawf perthnasedd uwch. Bydd hyn yn golygu:

- bod yn rhaid i gofnodion personol a ddelir gan drydydd partïon fod yn debygol o fod yn berthnasol i fater mewn treial neu i gymhwysedd tyst i dystio; a
- bod gorfodaeth i ddangos i'r heddlu neu erlynwyr (neu ddatgelu i'r amddiffyniad) yn angenrheidiol er mwyn sicrhau cyfiawnder.

A ydych yn cytuno?

Rydym yn cynnig yn amodol amlinellu rhestr Canada o ffactorau i'w hystyried pan fydd y llys yn penderfynu beth sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau cyfiawnder, sef:

a) y graddau y mae angen y cofnod er mwyn i'r cyhuddedig roi ateb ac amddiffyniad llawn;

b) gwerth tystiolaethol y cofnod;

c) natur a graddau'r disgwyliad rhesymol o breifatrwydd mewn cysylltiad â'r cofnod;

cc) a yw dangos y cofnod yn seiliedig ar gred wahaniaethol neu ragfarn;

d) effaith bosibl ar urddas personol a hawl i breifatrwydd unrhyw berson y mae'r cofnod yn berthnasol iddo;

dd) diddordeb cymdeithas mewn annog riportio troseddau rhywiol;

e) diddordeb cymdeithas mewn annog achwynwyr troseddau rhywiol i gael triniaeth; ac

f) effaith y penderfyniad ar uniondeb proses y treial.

A ydych yn cytuno? A oes ffactorau y dylem eu dileu, addasu neu ychwanegu?

### Cwestiwn 7 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Ar gyfer **derbynioldeb** fel tystiolaeth, rydym yn cynnig yn amodol brawf perthnasedd uwch fel bod deunydd mewn cofnodion personol a gedwir gan drydydd partïon yn dderbyniol:

- os yw'r dystiolaeth yn berthnasol i fater mewn treial neu i gymhwysedd tyst i dystio; ac
- os oes ganddo werth tystiolaethol arwyddocaol nad yw'n cael ei orbwyso yn sylweddol gan y perygl o effaith ar weinyddu cyfiawnder yn briodol.

A ydych yn cytuno?

Rydym yn cynnig yn amodol amlinellu rhestr Canada o ffactorau i'w hystyried pan fydd y llys yn penderfynu a oes gan y dystiolaeth werth tystiolaethol arwyddocaol nad yw'n cael ei orbwyso'n sylweddol gan y perygl o effaith ar weinyddu cyfiawnder yn briodol. Y ffactorau hyn yw:

a) sicrhau cyfiawnder, gan gynnwys hawl y cyhuddedig i roi ateb ac amddiffyniad llawn;

b) diddordeb cymdeithas mewn annog riportio troseddau ymosodiad rhywiol;

c) diddordeb cymdeithas mewn annog achwynwyr troseddau rhywiol i gael triniaeth;

cc) a oes siawns resymol y bydd y dystiolaeth yn helpu i ddod i benderfyniad teg yn yr achos;

d) yr angen i ddileu unrhyw gredoau gwahaniaethol neu ragfarn o'r broses o ganfod ffeithiau;

dd) y risg y gallai'r dystiolaeth ysgogi teimladau o ragfarn, cydymdeimlad neu elyniaeth heb fod angen yn y rheithgor;

e) yr effaith bosibl ar urddas personol yr achwynydd a'i hawl i breifatrwydd;

f) hawl yr achwynydd a phob unigolyn i ddiogelwch personol ac i amddiffyniad a budd llawn y gyfraith; ac

g) unrhyw ffactor arall sy'n berthnasol ym marn y barnwr.

A ydych yn cytuno? A oes ffactorau y dylem eu dileu, addasu neu ychwanegu?

# Tystiolaeth o ymddygiad rhywiol

Gallai tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yr achwynydd fod yn dystiolaeth berthnasol mewn treial troseddau rhywiol; gall fod angen i ddiffynnydd gyflwyno ei achos yn briodol neu herio tystiolaeth yr erlyniad i gyflwyno tystiolaeth o ymddygiad rhywiol neu i holi'r achwynydd ynglŷn ag elfen o'i ymddygiad rhywiol. Er hyn, mae perygl i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol gyflwyno mythau a chamsyniadau yn ymwneud â hygrededd, cydsyniad a theilyngdod moesol yr achwynydd oherwydd ei ymddygiad rhywiol, gan ystumio'r gwir a dylanwadu o bosibl ar y broses o wneud penderfyniadau. Er enghraifft: Gellid defnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol i awgrymu, oherwydd bod yr achwynydd wedi cydsynio i weithgaredd rhywiol o'r blaen, ei bod yn rhaid ei fod wedi cydsynio i gael rhyw gyda'r diffynnydd. Neu gellid ei defnyddio i awgrymu bod gan yr achwynydd brofiad o ryw ac o ganlyniad ei fod yn llai tebygol o fod yn dyst dibynadwy. Gall hefyd olygu gofyn cwestiynau ymwthiol a bychanol diangen i'r achwynydd. Mae hyn yn groes i fuddiannau cyfiawnder.

O ganlyniad, ystyrir bod angen cyfyngu'r defnydd o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol i leihau ei heffaith niweidiol a rhagfarnllyd tra'n caniatáu tystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer treial teg. Mae cyfyngiadau ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn yr awdurdodaeth hon yn dyddio'n ôl i 1887.[21] Ar hyn o bryd mae'n cael ei chyfyngu gan y darpariaethau yn adran 41 o Ddeddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 (y cyfeirir ati fel "adran 41"). Mae darpariaethau sy'n cyfyngu ar y defnydd o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol hefyd yn gyffredin mewn llawer o awdurdodaethau tebyg a chyfeirir atynt yn aml fel "deddfwriaeth tarian trais rhywiol".



**Deddfwriaeth tarian trais rhywiol**: cyfraith sy'n cyfyngu ar y defnydd o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol achwynydd oherwydd y risg y bydd yn cyflwyno mythau a chamsyniadau sy'n dylanwadu ar brosesau gwneud penderfyniadau, ac yn gwneud yr achwynydd yn agored i gwestiynau amhriodol o ymwthiol.

Mae Adran 41 yn gwahardd defnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol (naill ai drwy dderbyn tystiolaeth neu drwy gwestiynu'r achwynydd amdani) ar ran y diffynnydd, oni bai fod y dystiolaeth yn berthnasol ac yn dystiolaethol ac yn ffitio i un o bedwar "porth":

1. **Ddim yn fater o gydsynio**: mae hyn yn caniatáu i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol gael ei derbyn os nad yw'n cael ei defnyddio fel tystiolaeth bod yr achwynydd wedi cydsynio i'r gweithgaredd rhywiol gyda'r diffynnydd. Mae'n caniatáu tystiolaeth o ymddygiad rhywiol a ddefnyddir i gefnogi cred resymol diffynnydd bod yr achwynydd wedi cydsynio. Mae hefyd yn caniatáu defnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, er enghraifft, fel tystiolaeth bod gan achwynydd reswm i ddweud celwydd, neu fel eglurhad amgen dros feichiogrwydd neu glefydau a drosglwyddir yn rhywiol y mae'r erlyniad yn hawlio eu bod yn deillio o'r drosedd honedig.

21 *R v Riley* (1887) 18 QBD 481.

2. **Tebygrwydd:** mae hyn yn caniatáu i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol gael ei derbyn os caiff ei defnyddio fel tystiolaeth bod yr achwynydd wedi cydsynio, os yw'r dystiolaeth o ymddygiad rhywiol "mor debyg" i'r ymddygiad yn y drosedd honedig, neu i ymddygiad y dywedir ei fod wedi digwydd ar yr adeg neu tua'r un adeg, fel "na ellir egluro tebygrwydd yn rhesymol fel cyd-ddigwyddiad". Mae'r prawf o dan y porth hwn wedi cael ei ddehongli'n farnwrol i alluogi tystiolaeth i gael ei derbyn os yw mor berthnasol i fater cydsynio fel y byddai peidio â'i chynnwys yn peryglu tegwch y treial.[22]

3. **Cyfoesedd:** mae hyn yn caniatáu i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol gael ei derbyn os caiff ei defnyddio fel tystiolaeth bod yr achwynydd wedi cydsynio, os yw'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol a ddigwyddodd "ar adeg neu tua'r un adeg" â'r drosedd honedig.

4. **Gwrthbrofi:** mae hyn yn caniatáu i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol gael ei derbyn os yw'n cael ei defnyddio dim ond er mwyn gwrthbrofi tystiolaeth a gyflwynir gan yr erlyniad.

Rhaid i'r amddiffyniad wneud cais i'r llys i gyflwyno tystiolaeth, neu gwestiynu'r achwynydd, mewn perthynas â'i ymddygiad rhywiol. Ni fydd y llys yn rhoi caniatâd oni bai fod y dystiolaeth honno yn bodloni'r meini prawf ar gyfer un o'r pyrth hyn **ac** yn ymwneud ag achos neu achosion penodol **a** bod y llys yn fodlon y gallai peidio â derbyn y dystiolaeth achosi i'r rheithgor ddod i gasgliad "anniogel" ar unrhyw fater perthnasol yn yr achos. Ni ellir derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol dan byrth 1 i 3 os pwrpas, neu brif bwrpas, cyflwyno'r dystiolaeth yw awgrymu na ddylid credu'r achwynydd.

Er bod cydnabyddiaeth gyffredinol bod angen rhyw fath o gyfyngu, mae llawer o graffu wedi bod ar y fframwaith presennol. Mae adolygiadau sylweddol wedi dod i'r casgliad bod adran 41 yn gweithio'n briodol.[23] Er hyn, mae wedi cael ei beirniadu hefyd ar y sail ei bod yn rhy eang (derbyn gormod o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol) ac yn rhy gyfyngol (nid yw'r fframwaith yn caniatáu ar gyfer tystiolaeth sydd ei hangen er mwyn derbyn treial teg), yn ogystal â rhy gymhleth ac o ganlyniad yn cael ei chymhwyso'n anghyson yn ymarferol. Credwn fod y pryderon hyn yn achosi digon o drafferth fel y dylem ystyried opsiynau ar gyfer diwygio.

## Opsiynau ar gyfer diwygio

Rydym wedi ystyried amryw o opsiynau ar gyfer diwygio gan gynnwys:

1. Gwaharddiad llwyr ar ddefnyddio tystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Byddai hyn yn sicrhau dull gweithredu cyson ac mae'n dileu'r risg bod tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn cyflwyno mythau. Er hyn, mae angen rhywfaint o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol ar gyfer treial teg, felly mae gwaharddiad llwyr yn amhriodol.

2. Model "disgresiwn eang" (fel sy'n cael ei ddefnyddio yn Iwerddon a rhai taleithiau yn America). Byddai hyn yn galluogi barnwyr i ystyried ar sail ffeithiau pob achos a yw'n briodol derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol, ni waeth pa fath o dystiolaeth ydyw na beth yw ei phwrpas. Mae hwn yn fodel hyblyg iawn sy'n rhoi sylw i bryderon bod adran 41 yn rhy gyfyngol a chymhleth. Er hyn, â disgresiwn mor eang, mae pryder y bydd y dull gweithredu ar gyfer tystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn anghyson ac na fydd yn canolbwyntio digon ar ei niwed posibl. Cyn adran 41, roedd model disgresiwn eang yng Nghymru a Lloegr.[24]

22 *R v A* (Rhif 2) [2001] UKHL 25, para 46, ys dywedwyd gan yr Arglwydd Steyn.

23 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac AGO, "Limiting the use of complainants' sexual history in sex cases", Rhagfyr 2017 ac L Hoyano, "The Operation of YJCEA 1999 section 41 in the Courts of England and Wales: view from the barristers' row: An independent empirical study commissioned by the Criminal Bar Association" (2018).

24 Deddf Troseddau Rhywiol (Diwygio) 1975, adran 2.

Roedd digon o bryder ynglŷn ag ef nes iddo gael ei ddiwygio yn y pen draw, gan arwain at gyflwyno adran 41.

3. Model "disgresiwn strwythuredig" (fel sy'n cael ei ddefnyddio yng Nghanada a'r Alban), â gwaharddiad eang oni bai fod y dystiolaeth o ymddygiad rhywiol yn bodloni trothwy uchel addas.



**Model disgresiwn strwythuredig**: fframwaith sy'n cyfyngu ar y defnydd o dystiolaeth o ymddygiad rhywiol drwy sefydlu trothwy ar gyfer derbyn, â set o ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw'r trothwy hwnnw'n cael ei fodloni ym mhob achos.

Er ein bod yn cydnabod heriau pob opsiwn diwygio, rydym yn ystyried yn amodol y gallai model disgresiwn strwythuredig fynd i'r afael yn well â'r anawsterau sydd ynghlwm wrth y dystiolaeth hon. Rydym yn cynnig yn amodol na ddylai tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn dderbyniol oni bai:

1. fod gan y dystiolaeth werth tystiolaethol sylweddol; ac
2. na fyddai ei derbyn yn cael effaith arwyddocaol ar weinyddu cyfiawnder yn briodol.

Mae'r dull gweithredu hwn yn ei gwneud yn ofynnol i farnwyr ystyried gwerth tystiolaethol tystiolaeth o ymddygiad rhywiol a'r risg o ragfarn.

Gallai model disgresiwn strwythuredig hefyd nodi ffactorau y dylai'r llys eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â derbynioldeb. Yng Nghanada, er enghraifft, mae'r ffactorau hyn yn cynnwys buddiannau cyfiawnder, hawl diffynnydd i dreial teg, urddas yr achwynydd, a'r risg o barhau mythau a chamsyniadau. Rydym yn gwahodd barn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai fod yn ofynnol i'r llys ystyried y ffactorau hyn, neu unrhyw ffactorau eraill, wrth benderfynu a ddylai tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn dderbyniol.

Dylai model disgresiwn strwythuredig o'r fath arwain at brosesau gwneud penderfyniadau clir, mwy cyson, a dadansoddiad trylwyr. Er mwyn gwella hyn, rydym yn cynnig yn amodol y dylai fod yn ofynnol i farnwyr roi rhesymau ysgrifenedig dros benderfyniadau yn ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Rydym yn cydnabod bod angen mwy o amser llys ar gyfer hyn; gallai hyn gael effaith fawr ar weithdrefnau treial yn yr achosion prin pan fydd angen penderfyniad yng nghanol treial. Fodd bynnag, yn ein barn amodol, mae'n gymesur o ystyried manteision tryloywder a chysondeb.

### Cwestiwn 8 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Rydym yn cynnig yn amodol na ddylai tystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn dderbyniol oni bai:

1. fod gan y dystiolaeth werth tystiolaethol sylweddol; ac
2. na fyddai ei derbyn yn cael effaith arwyddocaol ar weinyddu cyfiawnder yn briodol.

A ydych yn cytuno?

**Cwestiwn 9 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Pan fydd y barnwr yn penderfynu a oes gan dystiolaeth o ymddygiad rhywiol werth tystiolaethol, ac na fyddai ei derbyn yn cael effaith arwyddocaol ar weinyddu cyfiawnder yn briodol, ac o ganlyniad y gellir ei derbyn, pa rai o'r ffactorau a ganlyn, os unrhyw rai, y dylai eu hystyried:

1. diogelu urddas yr achwynydd, parchu bywyd preifat yr achwynydd a hawliau cyfreithiol yr achwynydd;
2. buddiannau cyfiawnder gan gynnwys hawl y diffynnydd i dreial teg;
3. manteision annog dioddefwyr i riportio a darparu tystiolaeth ar gyfer erlyniadau ymosodiadau rhywiol;
4. y risg o gyflwyno neu o barhau mythau neu gamsyniadau; ac
5. unrhyw ffactor arall y mae'r barnwr o'r farn ei fod yn berthnasol i'r achos unigol.

A oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth y dylai'r barnwr eu hystyried wrth benderfynu a ddylid derbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol?

Yn y papur ymgynghori llawn rydym yn edrych yn fanylach ar faterion gweithdrefnau, dehongli a chymhwysedd. Er enghraifft, rydym yn gofyn am farn ynglŷn â beth ddylai gael ei ystyried yn "ymddygiad rhywiol" ac o ganlyniad yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiad. Rydym hefyd yn trafod pryd y dylid defnyddio fframwaith yn cyfyngu ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol ac a ddylai fod yn gymwys i dystiolaeth a geisir i'w chyflwyno gan yr erlyniad a'r amddiffyniad.

Rydym hefyd yn gofyn am farn ymgyngoreion ynglŷn â'r cwestiwn a ddylai'r cyfyngiadau fod yn gymwys pan ofynnir am dystiolaeth o ymddygiad rhywiol i'w gyflwyno mewn troseddau ar wahân i droseddau rhywiol.

# Cymeriad

Gallai tystiolaeth o gymeriad da neu ddrwg unigolyn fod yn dderbyniol mewn treial troseddol weithiau.

**Beth fydd yn dystiolaeth o gymeriad drwg?**

Bydd tystiolaeth o gymeriad drwg naill ai'n "dystiolaeth o ... gamymddwyn" neu'n "dystiolaeth o ... duedd i gamymddwyn". Diffinnir "camymddwyn" fel "cyflawni trosedd neu ymddygiad gresynus arall". (Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, is-adrannau 98 a 112)

**Hygrededd:** gellid defnyddio tystiolaeth o gymeriad da (neu ddrwg) i awgrymu y dylid (neu na ddylid) credu unigolyn.

**Tueddiad:** gellid defnyddio tystiolaeth o gymeriad da (neu ddrwg) i awgrymu bod gan unigolyn (neu nad oes gan unigolyn) duedd i ymddwyn mewn ffordd benodol.

Rydym yn ystyried tri mater mewn cysylltiad â thystiolaeth o gymeriad.

## Cymeriad drwg diffynnydd

Bydd tystiolaeth fod diffynnydd wedi dangos ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol, mathau eraill o gam-drin domestig, trais rhywiol neu gamymddwyn rhywiol, ond nad yw wedi ei ganfod yn euog o droseddau o'r fath, yn dystiolaeth o "ymddygiad gresynus" sy'n gyfwerth â chymeriad drwg. Gallai awgrymu bod gan y diffynnydd dueddiad i ymddwyn yn y ffordd a honnwyd yn yr erlyniad presennol, neu na ddylid ei gredu pan mae'n hawlio nad yw wedi ymddwyn yn y ffordd a honnwyd.

Rydym yn dod i'r casgliad yn amodol bod y math yma o dystiolaeth bod rhywun yn "ddieuog" yn dderbyniol ar hyn o bryd dan Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, lle bo'n briodol, felly nid ydym yn gwneud cynigion amodol ar gyfer newid deddfwriaethol. Er hyn, mae'n ymddangos nad yw ceisiadau i dderbyn tystiolaeth o'r fath yn cael eu gwneud yn gyson, a lle maent yn cael eu gwneud, nad yw'r dystiolaeth bob amser yn dderbyniol. Gallai hyn fod oherwydd y bydd angen gwrandawiadau "lloeren" er mwyn profi bod y diffynnydd wedi cyflawni'r camymddwyn honedig, ac mae gwrandawiadau o'r fath yn ymestyn hyd treialon ac yn tynnu sylw oddi wrth y prif gwestiynau y mae'n rhaid i'r rheithgor eu hateb. Efallai, fodd bynnag, nad yw gwaith casglu tystiolaeth ac adeiladu achos cynharach wedi'i wneud mewn ffyrdd sy'n rhoi sail ddigonol i erlynwyr wneud cais neu sy'n rhoi sail ddigonol i farnwyr dderbyn y dystiolaeth. Yn y cyswllt hwn, rydym yn gofyn am farn ynglŷn â'r cwestiwn a fyddai mwy o eglurder cyfreithiol yn fuddiol.

### Cwestiwn 10 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Ein barn amodol yw nad oes angen diwygio darpariaethau cymeriad drwg Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i ddarparu ar gyfer tystiolaeth bod y diffynnydd yn ddieuog o drais rhywiol, trais heb fod yn rhywiol, neu ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol blaenorol. A ydych yn cytuno?

A oes angen canllawiau ynglŷn â'r gyfraith i gynorthwyo erlynwyr i adeiladu achos a gwneud ceisiadau, ac i gynorthwyo barnwyr i benderfynu ynglŷn â cheisiadau yn ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth o gymeriad drwg heb euogfarn? Os hynny, pa gorff ddylai gyhoeddi canllawiau o'r fath?

## Cymeriad da achwynydd

Yn ail, rydym yn archwilio'r rheolau sy'n ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth o gymeriad da, yn enwedig mewn cysylltiad â thystiolaeth o gymeriad da'r achwynydd.

**Beth fydd yn dystiolaeth o gymeriad da?**

Tystiolaeth o gymeriad da'r diffynnydd fydd tystiolaeth nad oes ganddo euogfarnau neu rybuddiadau blaenorol nac unrhyw ymddygiad gresynus arall sydd wedi cael ei honni, ei gyfaddef neu ei brofi. Gallai diffynnydd sydd ag euogfarnau a/neu rybuddiadau hen, mân neu amherthnasol hefyd gael ei weld fel un sydd â chymeriad da. (*R v Hunter* [2015] EWCA Crim 631)

Nid yw tystiolaeth o gymeriad da'r achwynydd wedi bod yn dderbyniol fel arfer ac nid yw wedi'i diffinio mor glir. Er hyn, mae'r gyfraith achosion yn nodi y bydd yn cynnwys tystiolaeth nad oes gan yr achwynydd euogfarnau blaenorol (*R v Mader* [2018] EWCA Crim 2454). Gallai hefyd gynnwys tystiolaeth bod yr achwynydd, er enghraifft, "yn cyd-dynnu'n dda â'i brodyr a'i chwiorydd, wedi gwneud yn dda yn yr ysgol, yn gwrtais iawn ac yn dawel [ac] yn parchu pobl " (*R v Tobin* [2003] EWCA Crim 190).

Nodwyd ers tro y gall diffynnydd gyflwyno tystiolaeth o'i gymeriad da ei hun. Nid ydym yn cynnig unrhyw ddiwygiadau i leihau hawl y diffynnydd i dystiolaeth o gymeriad da oherwydd mae risg y byddai cyfyngiadau yn amharu ar hawliau i dreial teg.

Mae'n anghyffredin i'r erlyniad allu cyflwyno tystiolaeth o gymeriad da'r achwynydd. Nid ydym yn cynnig y dylid ehangu'r gyfraith fel y mae wedi'i nodi yn *Mader* i alluogi derbyn tystiolaeth o gymeriad da achwynydd yn fwy aml gan fod risg y byddai hynny'n gwanhau hawliau'r diffynnydd i dreial teg.[25] Er hyn, rydym yn gwneud cynnig amodol mewn perthynas â chyfarwyddiadau gan farnwr i'r rheithgor pan na fydd y rheithgor wedi clywed tystiolaeth am gymeriad da'r achwynydd.

### Cwestiwn 11 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Rydym yn cynnig yn amodol, os nad yw'r rheithgor wedi clywed tystiolaeth am gymeriad da'r achwynydd ac nad oes gan yr achwynydd euogfarnau blaenorol, os bydd barnwr y treial yn penderfynu bod angen hynny er mwyn sicrhau tegwch, y dylai'r barnwr roi cyfarwyddyd i'r rheithgor gan egluro pam nad yw'r rheithgor wedi clywed tystiolaeth o gymeriad da'r achwynydd ac na ddylai'r rheithgor ddod i gasgliad sy'n anffafriol i'r achwynydd oherwydd ei absenoldeb. A ydych yn cytuno?

25 Rydym yn cydnabod efallai y byddai'n well gan Senedd y DU newid cyfreithiol yn hytrach na chyfarwyddiadau ychwanegol i'r rheithgor, felly yn y papur ymgynghori llawn rydym yn nodi beth rydym yn ei weld fel terfynau mesurau deddfwriaethol posibl yn y maes hwn fel nad oes unrhyw amharu ar yr hawl i dreial teg.

## Cymeriad drwg achwynydd

Byddai gwneud honiadau anwir fel arfer yn ymddygiad gresynus (ac o bosibl yn ymddygiad troseddol) a gallai tystiolaeth o wneud hynny fod yn dystiolaeth o gymeriad drwg. Gallai tystiolaeth fod achwynydd wedi dweud celwydd ar achlysur blaenorol am honiad o ymosodiad rhywiol fod yn berthnasol ac yn dystiolaethol iawn. Gall rheithgor ddod i'r casgliad na ddylai unigolyn sydd wedi dweud celwydd am faterion o'r fath ar achlysuron blaenorol gael ei gredu y tro hwn.

Fel y mae'r tabl mythau a chamsyniadau uchod yn dangos, myth yw'r gred bod llawer o honiadau o drais rhywiol yn anwir ac nad oes sail iddynt mewn gwirionedd. Nid yw hyn yn golygu nad yw honiadau anwir byth yn cael eu gwneud, ac nid yw'n lleihau'r effeithiau ar bobl sy'n cael eu cyhuddo ar gam. Nid yw'n golygu ychwaith na ddylid derbyn tystiolaeth bod achwynydd wedi gwneud honiad anwir o ymosodiad rhywiol o'r blaen. Yn hytrach, gan fod ymchwil yn awgrymu bod risg y gallai'r myth effeithio ar ystyriaethau'r rheithgor, mae lle i gredu bod angen bod yn ofalus iawn cyn derbyn tystiolaeth o'r fath.

Ein barn amodol yw y dylai unrhyw gwestiynu ynglŷn â honiadau anwir fod yn ddarostyngedig i'r un trothwyon derbynioldeb ag a gymhwysir i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol. Mae hyn oherwydd bod yr amddiffyniadau tystiolaeth o ymddygiad rhywiol trothwy uwch yn bodoli er mwyn atal y risg y bydd mythau trais rhywiol yn halogi rhesymeg rheithgor, yn ogystal ag er mwyn amddiffyn yr achwynydd rhag cwestiynu ymwthiol a bychanol.

P'un a oes cwestiynu ynglŷn ag ymddygiad rhywiol yr achwynydd ai peidio, mae'r categori hwn o dystiolaeth o ymddygiad drwg yn cyflwyno risg bod tuedd i reithgor sy'n gwrando ar yr amddiffyniad yn hawlio bod yr achwynydd wedi gwneud honiad anwir o ymosodiad rhywiol o'r blaen resymu, "Ydw, rydw i'n gallu gweld bod hynny'n gredadwy, oherwydd mae honiadau o drais yn aml yn anwir. Rydw i'n credu'r amddiffyniad." Yn unol â hyn, ein barn amodol yw bod yr amddiffyniadau trothwy uwch yn briodol.

Yn y papur ymgynghori llawn rydym yn trafod yr agwedd hon ar y gyfraith yn fanwl ac yn gofyn nifer o gwestiynau ymgynghori; rydym yn annog ymgyngoreion sydd â buddiannau yn y mater hwn i ystyried y dadansoddiad manylach hwnnw.

### Cwestiwn 12 o Grynodeb yr Ymgynghoriad

Rydym yn cynnig yn amodol, lle mae'r diffynnydd yn ceisio cyflwyno tystiolaeth bod yr achwynydd wedi gwneud honiadau anwir o ymosodiad rhywiol ar achlysuron blaenorol, y dylai'r trothwy derbynioldeb fod yr un fath â'r un a ddefnyddir ar gyfer tystiolaeth o ymddygiad rhywiol. A ydych yn cytuno?

# Hawliadau Iawndal am Anafiadau Troseddol

Mae hawliad am iawndal yn gais am arian i gydnabod anaf neu ddioddefaint. Mae gan achwynwyr troseddau rhywiol hawl i wneud hawliad am iawndal gan sefydliad sy'n cael ai ariannu gan y llywodraeth, sef yr Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol (CICA). Lle bo hawliadau yn bodloni meini prawf penodol, ni waeth a oes achos troseddol yn digwydd neu a yw'r diffynnydd yn cael ei euogfarnu, gall y CICA ddyfarnu iawndal i achwynwyr sydd wedi cael anaf corfforol neu seicolegol o ganlyniad uniongyrchol i drosedd rywiol. Mae academyddion a rhanddeiliaid yn dweud bod cynlluniau iawndal yn darparu cydnabyddiaeth bwysig a ffordd o wneud iawn yn ariannol i achwynwyr, y gallant ei defnyddio i gynorthwyo â'u hadferiad, er enghraifft i ariannu therapi.

## Beth yw'r mythau?

Mae defnyddio tystiolaeth a gofyn cwestiynau i achwynwyr yn y llys am hawliadau iawndal yn ffordd arall bosibl o gyflwyno mythau a chamsyniadau i broses y treial, gan amharu a dylanwadu o bosibl ar drafodaethau rheithwyr.

Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym fod bodolaeth hawliad iawndal am anaf troseddol yn cael ei ddefnyddio mewn treial i danseilio hygrededd yr achwynydd ac i awgrymu bod ei honiad yn anwir ac at ddiben budd ariannol yn ystod croesholiad (pan fydd yr achwynydd yn rhoi tystiolaeth yn y treial a chyfreithiwr yr amddiffyniad yn gofyn cwestiynau iddo). Nid yw defnyddio tystiolaeth a chwestiynau ar y pwnc hwn o reidrwydd yn dibynnu ar fythau, ac mewn rhai amgylchiadau gallai fod yn berthnasol. Er hyn, roedd rhai rhanddeiliaid o'r farn mai yn anaml iawn y mae tystiolaeth hawliadau iawndal am anafiadau troseddol yn berthnasol, a'u bod yn gallu effeithio ar ragfarnau rheithwyr.

Gall rheithwyr roi amcan rhy uchel o amser cwynion anwir a rhagdybio na fyddai dioddefwr 'go iawn' yn gwneud cais am iawndal. Oherwydd hyn, mae gan dystiolaeth o hawliadau iawndal am anafiadau troseddol botensial rhagfarnus unigryw.

**Mae croesholi ar y pwnc hwn, "boed yn benodol neu yn gynnil yn ystafell y llys, yn bwydo i mewn i stereoteipiau ehangach, rhywiaethol yn bennaf, sy'n portreadu dioddefwyr fel rhai sydd 'ar ôl arian'. Yn arwyddocaol, nid yw ein staff ni wedi gweld yr un tueddiad ar gyfer y math hwn o gwestiynu mewn treialon troseddol eraill lle mae gan ddioddefwyr yr un hawl i iawndal a lle maent yn gwneud cais am iawndal."**

**Geraldine Hanna, Comisiynydd Dioddefwyr Troseddau yng Ngogledd Iwerddon a chyn Brif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ddioddefwyr yng Ngogledd Iwerddon [26]**



26 R Killean tal, *Sexual Violence on Trial* (Northern Ireland) (2021), Pennod 5 Supporting victims through the trial tals t 65.

## Beth yw'r broblem â'r fframwaith?

Dywedwyd wrthym bod anawsterau â gweithredu'r terfynau amser a'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer gwneud hawliadau iawndal am anafiadau troseddol. Mae'r fframwaith cyfreithiol yn nodi bod yn rhaid i achwynwyr gyflwyno eu hawliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl dyddiad y digwyddiad, a chyn pen dwy flynedd beth bynnag. Anogir hawliadau buan, ac oherwydd bod achosion yn crynhoi yn y llysoedd troseddol, maent yn aml yn cael eu gwneud cyn i'r achos troseddol dod i ben. Gall CICA ymestyn y terfyn amser o ddwy flynedd, ond dim ond mewn amgylchiadau eithriadol. Nid yw achwynwyr o reidrwydd yn gwybod a fyddant yn bodloni'r gofyniad hwn. O ganlyniad, gadewir achwynwyr â dau opsiwn anfoddhaol. Gallant wneud eu cais ar ddiwedd yr achos troseddol, heb wybod a fydd y terfyn amser yn cael ei ymestyn. Neu, gallant wneud eu cais o fewn y terfyn amser, â'r risg y byddant yn cael eu croesholi arno a mythau'n cael eu cyflwyno yn y treial. Mae'r broblem hon yn unigryw i achosion troseddau rhywiol oherwydd yn anaml iawn y defnyddir hawliadau iawndal am anafiadau troseddol yn erbyn achwynwyr yn y mathau hyn o achosion ond nid ar gyfer troseddau eraill, ac oherwydd y posibilrwydd y gallant fod yn rhagfarnus iawn.

## Opsiynau ar gyfer diwygio

Nid ydym yn cynnig y dylai CICA ystyried ymestyn y terfynau amser ar gyfer hawliadau, fel bod modd eu gwneud ar ôl i'r treial ddod i ben. Byddai hyn yn oedi hawliadau iawndal ar gyfer achwynwyr troseddau rhywiol, y mae ganddynt hawl iddynt, a dderbynnir yn fuan gan achwynwyr eraill. Nid ydym yn meddwl ychwaith y byddai cyfarwyddiadau barnwrol ar eu pen eu hunain yn ddigon i fynd i'r afael â'r rhagfarn a allai godi pan gyflwynir tystiolaeth hawliadau iawndal am anafiadau troseddol amherthnasol, gan fod anghydfod ynglŷn ag effeithiolrwydd cyfarwyddiadau, ac ar ôl i hyn ddigwydd mae'n anodd lleihau eu heffaith ar farn rheithwyr.

Yn lle hynny, rydym yn mynd i'r afael â'r mater sylfaenol, sef defnyddio'r deunydd hwn mewn treial. Rydym yn cynnig yn amodol y dylid defnyddio cyfyngiadau ar ddefnyddioldeb tystiolaeth o hawliadau iawndal am anafiadau troseddol a'u croesholi. Rydym yn awgrymu bod yn rhaid i farnwr roi caniatâd ymlaen llaw, cyn cyflwyno tystiolaeth hawliad o iawndal am anafiadau troseddol, gan gymhwyso prawf tebyg i'r model perthnasedd uwch a disgresiwn strwythuredig tystiolaeth o ymddygiad rhywiol a ddisgrifiwyd uchod. Mae hyn yn ceisio atal dibyniaeth ar fythau tra'n sicrhau bod y diffynnydd yn gallu cyflwyno tystiolaeth berthnasol sydd ei hangen ar gyfer treial teg. Mae rhai taleithiau yn Awstralia yn rhoi cyfyngiadau tebyg, neu fwy fyth o gyfyngiadau, ar dderbynioldeb hawliadau iawndal am anafiadau troseddol na'r model rydym yn ei gynnig, gan gynnwys gwaharddiad llwyr. Fodd bynnag, rydym yn gwrthod y defnydd o waharddiad llwyr ar ddefnyddio tystiolaeth a chwestiynau am hawliadau iawndal am anafiadau troseddol, gan y gallai hyn atal y diffynnydd rhag cyflwyno tystiolaeth berthnasol a gallai amharu ar ei hawl i dreial teg.

### Cwestiwn 13 yn y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Rydym yn cynnig yn amodol y dylid gorfod cael caniatâd gan farnwr y treial ar gyfer tystiolaeth a chroesholi ynglŷn â hawliadau iawndal am anafiadau troseddol, ac y dylai fod yn ddarostyngedig i drothwy derbynioldeb perthnasedd uwch a disgresiwn strwythuredig, yn debyg i dystiolaeth o ymddygiad rhywiol.

Byddai hyn yn golygu na fyddai tystiolaeth a chroesholi ynglŷn â hawliadau iawndal am anafiadau troseddol yn dderbyniol oni bai:

1. fod gan y dystiolaeth werth tystiolaethol sylweddol; ac
2. na fyddai ei derbyn yn cael effaith arwyddocaol ar weinyddu cyfiawnder yn briodol.

A ydych yn cytuno?

### Cwestiwn 14 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Pan fydd barnwr yn penderfynu a oes gan hawliad iawndal am anafiadau troseddol werth tystiolaethol sylweddol, ac na fyddai ei dderbyn yn cael effaith arwyddocaol ar weinyddu cyfiawnder yn briodol, ac o ganlyniad, y gellir ei dderbyn, pa rai o'r ffactorau a ganlyn, os unrhyw rai, y dylai eu hystyried:

1. diogelu urddas yr achwynydd, parchu bywyd preifat yr achwynydd a hawliau cyfreithiol yr achwynydd;
2. buddiannau cyfiawnder gan gynnwys hawl y diffynnydd i dreial teg;
3. manteision annog dioddefwyr i riportio a darparu tystiolaeth ar gyfer erlyniadau ymosodiadau rhywiol;
4. y risg o gyflwyno neu o barhau mythau neu gamsyniadau; ac
5. unrhyw ffactor arall y mae'r barnwr o'r farn ei fod yn berthnasol i'r achos unigol.

A oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth y dylai'r barnwr eu hystyried wrth benderfynu a ddylid derbyn tystiolaeth o hawliad iawndal am anafiadau troseddol?

# Mesurau arbennig

Mewn achosion troseddau rhywiol, yr achwynwyr yn aml yw'r prif dyst yn y treial. Mae hyn yn golygu bod angen i achwynwyr roi tystiolaeth lafar: yn gyntaf gofynnir cwestiynau iddynt gan yr erlynydd ('prifholiad'), yna gan gynrychiolydd y diffynnydd ('croesholiad'), yna mae'n bosibl y gofynnir cwestiynau iddynt gan yr erlynydd eto er mwyn egluro unrhyw faterion sydd wedi codi yn y croesholiad ('ailholiad').

**"Fodd bynnag, derbynnir yn gyffredin nawr y gall y rhwymedigaeth hon roi gofynion llethol i dystion a'i bod yn ffynhonnell straen sylweddol i lawer, ac yn llesteirio'r dasg o dderbyn y dystiolaeth orau a allai fod ar gael mewn rhai achosion."[27]**

Pan mae nodwedd benodol yn gwneud tyst yn agored i niwed, gall hyn gael mwy fyth o effaith ar ei barodrwydd neu ei allu i gymryd rhan mewn achos ac i roi ei dystiolaeth orau. Er mwyn gwarchod rhag hyn, mae Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn darparu ar gyfer nifer o "fesurau arbennig": addasiadau i dreialon a chymorth ymarferol i dystion sy'n rhoi tystiolaeth. Mae'r mesurau hyn ar gael i dystion yr ystyrir eu bod yn cael eu "brawychu" neu sy'n "agored i niwed".[28] Ar hyn o bryd mae achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol yn gymwys ar gyfer mesurau arbennig yn awtomatig: maent yn cael eu dosbarthu fel

27 L Ellison a V Munro, "A 'Special' Delivery? Exploring the Impact of Screens, Live-Links and Video-Recorded Evidence on Mock Juror Deliberation in Rape Trials" (2014) 23 *Social and Legal Studies* 4.

28 Caiff tystion eu dosbarthu fel rhai sydd wedi cael eu "brawychu" pan fyddant yn dioddef ofn neu drallod mewn cysylltiad â rhoi tystiolaeth (Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 17). Gall tystion gael eu dosbarthu fel "agored i niwed" oherwydd oed, anabledd neu anhwylder corfforol, anhwylder meddyliol neu nam ar ddeallusrwydd a gweithredu cymdeithasol (Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 16).

"tystion sy'n cael eu brawychu" [29] oherwydd natur y drosedd.

Bwriad mesurau arbennig yw gwella ansawdd tystiolaeth tystion drwy leihau unrhyw ofn neu drallod. Yr effaith hon ar ansawdd tystiolaeth yw sail y ddarpariaeth statudol.

Mae'r fframwaith presennol yn sefydlu categorïau o dystion sy'n gymwys ar gyfer mesurau i'w cynorthwyo i roi tystiolaeth; yna rhaid i'r llys benderfynu a ddylid gwneud gorchymyn ar gyfer y mesurau a geisir. O ganlyniad, tra mae achwynwyr mewn troseddau rhywiol yn gymwys yn awtomatig ar gyfer mesurau i'w cynorthwyo i roi tystiolaeth, mae'n dal yn ofynnol i'r llys benderfynu a ddylid gwneud cyfarwyddyd drwy benderfynu yn gyntaf a yw unrhyw fesur arbennig sydd ar gael (neu gyfuniad o fesurau) yn debygol o wella ansawdd tystiolaeth yr achwynydd,[30] yna pa fesur(au) fyddai'n debygol o wella ansawdd tystiolaeth o'r fath i'r graddau y mae hynny'n ymarferol.[31] Er nad yw wedi'i gynnwys yn y prawf statudol, rhan allweddol arall o ddatblygu mesurau arbennig yw'r amddiffyniad rhag triniaeth annynol y gallant ei gynnig i dystion yn yr hyn a allai fod fel arall yn brofiad anghymesur o ran straen a thrawma yn y llys.

**Nodyn ar derminoleg**

Mae'r derminoleg "mesurau arbennig" wedi cael ei beirniadu oherwydd ei bod yn gallu cyfeirio at sefydliad sy'n methu, neu awgrymu y gallai achwynwyr gael mantais annheg mewn treial. Rydym yn cynnig yn amodol y dylid defnyddio'r term mwy niwtral "mesurau i gynorthwyo â rhoi tystiolaeth".

Yn ogystal, mae labelu achwynwyr fel naill ai "agored i niwed" neu "wedi eu brawychu" wedi cael ei feirniadu gan nad yw'n adlewyrchu eu profiad personol, neu eu cyflwyniad mewn treial. Yn ein barn ni nid oes angen diffinio tystion sy'n rhoi tystiolaeth fel achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol fel naill ai "agored i niwed" neu "wedi eu brawychu". Yn hytrach, mae'n well cael categori ar wahân ar gyfer tystion y mae ganddynt hawl i fesurau penodol oherwydd eu bod yn achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol.



29 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 17(4).

30 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 19(2)(a).

31 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 19(2)(b).

## Symud at fframwaith o “hawl awtomatig”

Gall gwneud cais am gyfarwyddyd ar gyfer mesurau arbennig fod yn broses ymwthiol a diangen i raddau helaeth gan fod y mwyafrif helaeth o'r ceisiadau yn rhai diwrthwynebiad a hyd yn oed pan fyddant yn cael eu gwrthwynebu, yn llwyddiannus. Rydym felly'n cynnig yn amodol y dylai achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhyw fod â hawl awtomatig i fesurau safonol i'w cynorthwyo i roi tystiolaeth, â'r gallu i wneud cais i'r llys am fesurau ychwanegol.

Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod mesurau sydd eu hangen er mwyn diogelu'r achwynydd rhag triniaeth annynol mewn treial yn cael eu darparu, heb fod angen asesiad o'r effaith ar ansawdd ei dystiolaeth.

Byddai model hawl awtomatig yn golygu mai'r cyfan y byddai angen i achwynydd ei wneud fyddai penderfynu, ac yna hysbysu'r llys, pa rai o'r mesurau safonol, os o gwbl, y mae arno eu heisiau. Ni fyddai angen asesiad pellach. Byddai hyn yn creu mwy o gysondeb i achwynwyr, ac yn rhoi mwy o hyder iddynt. Byddai'r broses symlach hefyd yn defnyddio llai o adnoddau.

## Beth ddylai fod yn fesurau safonol?

| | |
|---|---|
| **Sgriniau** | Mae'r achwynydd yn rhoi tystiolaeth y tu ôl i sgrîn felly nid yw'n gorfod gweld y diffynnydd. |
| **Cyswllt byw** | Mae'r achwynydd yn rhoi tystiolaeth yn fyw o'r tu allan i ystafell y llys drwy gyswllt fideo, naill ai o ystafell arall yn adeilad y llys neu o leoliad addas arall. |
| **Tystiolaeth wedi'i recordio** | Mae'r achwynydd yn rhoi ei dystiolaeth (y prifholiad a'r croesholiad) cyn y treial pan nad yw'r cyhoedd na'r diffynnydd yn bresennol. Caiff y dystiolaeth ei recordio ac yna'i chwarae i'r rheithgor yn ystod y treial. |
| **Presenoldeb cefnogwr** | Bydd cefnogwr (er enghraifft Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol) yn bresennol gyda'r achwynydd pan fydd yn rhoi ei dystiolaeth. |
| **Cau'r cyhoedd allan** | Caiff y cyhoedd eu cau allan o'r llys tra rhoddir tystiolaeth yr achwynydd, ac eithrio un cynrychiolydd enwebedig o'r wasg; y diffynnydd; cynrychiolwyr cyfreithiol; unrhyw gyfieithydd neu berson arall a benodwyd i gynorthwyo'r achwynydd. |
| **Tynnu perwigiau a gynau** | Mae barnwyr a bargyfreithwyr yn y llys yn tynnu gwisg llys draddodiadol tra mae'r achwynydd yn rhoi tystiolaeth. |
| **Mynedfeydd ar wahân** | Gall yr achwynydd ddefnyddio mynedfa ac ystafell aros hygyrch sydd ar wahân i aelodau o'r cyhoedd a'r diffynnydd. |

Rydym wedi ystyried yr ystod o fesurau sydd ar gael yn barod i achwynwyr wrth wneud cais dan Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999: sgriniau, cyswllt byw, tystiolaeth wedi'i recordio, cau'r cyhoedd allan, a thynnu perwigiau a gynau. Mae tystiolaeth sy'n cefnogi manteision pob mesur i achwynwyr, pe baent yn dymuno eu defnyddio. Rydym yn cynnig yn amodol, felly, y dylai pob mesur sydd ar gael ar hyn o bryd i achwynwyr drwy wneud cais, fod ar gael i achwynwyr fel mesurau safonol y mae ganddynt hawl awtomatig iddynt.

Ar hyn o bryd mae gan lysoedd yr hawl i ganiatáu i gefnogwr eistedd gyda'r achwynydd tra bydd yn rhoi tystiolaeth. Mae Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn gwneud darpariaeth benodol ar gyfer cefnogwyr dim ond pan fydd yr achwynydd yn rhoi tystiolaeth drwy gyswllt byw. Rydym wedi clywed y gall cefnogwyr fod o gymorth cadarnhaol i achwynwyr sut bynnag y maent yn rhoi tystiolaeth, ond gall y ddarpariaeth fod yn anghyson. Rydym yn cynnig yn amodol y byddai cynnwys cefnogwyr yn y fframwaith statudol fel mesur safonol yn sicrhau mwy o gysondeb yn eu defnydd ac yn ffurfioli eu statws. Rydym hefyd wedi clywed y gall mynedfeydd ac ystafelloedd hygyrch, ar wahân, lle mae cyfleusterau'r llys yn caniatáu, fod yn bwysig er mwyn sicrhau diogelwch, anonymedd a phreifatrwydd achwynwyr pan fyddant yn dod i'r llys i roi tystiolaeth. Credwn y dylai hyn hefyd fod yn fesur safonol, lle mae cyfleusterau'r llys yn caniatáu.

Rydym yn awr yn ehangu ein sail resymegol ar gyfer tri mesur a allai fod o ddiddordeb penodol. Mae trafodaeth fanylach ar bob mesur ar gael yn y papur ymgynghori llawn.

**Rhoi tystiolaeth yn breifat,** y cyfeirir ato hefyd fel "cau'r cyhoedd allan". Ni yw'r unig awdurdodaeth yn y DU sy'n gofyn i achwynwyr roi tystiolaeth yn gyhoeddus fel mater o drefn. Mae hawl i gau'r cyhoedd allan yn golygu y gall achwynydd roi tystiolaeth heb straen a phryder ychwanegol ynglŷn â chael ei weld, a'i adnabod o bosibl, gan ddieithriaid, teulu a ffrindiau'r diffynnydd, neu nifer o ohebwyr a blogwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried natur sensitif y dystiolaeth y byddant yn ei rhoi a'r cwestiynau a ofynnir iddynt. Rydym yn llwyr gydnabod pwysigrwydd cyfiawnder agored, ac yn nodi bod yr hawl i gau'r cyhoedd o'r llys ar gael yn barod ag eithriadau sy'n galluogi aelod o'r wasg i fod yn bresennol ac i ohebu.[32] O ganlyniad, rydym yn cynnig yn amodol y dylai achwynwyr gael hawl awtomatig i orchymyn yn gwahardd y cyhoedd rhag arsylwi ar y treial tra maent yn rhoi tystiolaeth, â'r un eithriadau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

**Tystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw,** a elwir weithiau yn "adran 28" (yr adran o Ddeddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 sy'n darparu ar gyfer croesholiad wedi'i recordio ymlaen llaw). Roedd gwerthusiad o dystiolaeth wedi'i recordio ymlaen llaw yn ddiweddar yn cyfeirio at fanteision dwyn i gof yn well (gan ei fod fel arfer yn digwydd yn nes at y digwyddiad na'r treial) a bod yn well gan achwynwyr y pellter y mae'n ei roi iddynt oddi wrth y diffynnydd ac ystafell y llys wrth roi tystiolaeth.[33] Er hyn, mae angen gwrandawiad ar wahân yn gynharach ym mhroses y treial ac rydym yn nodi bod pryderon ynglŷn â'r effaith y mae hyn yn ei gael ar adnoddau llys ac oedi mewn mannau eraill. At ei gilydd, credwn ei bod yn briodol y dylai pob achwynydd fod â hawl i recordio ei dystiolaeth ymlaen llaw cyn treial, os yw'n dymuno.

32 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 25(3).

33 D Ward et al, "Process evaluation of Section 28: Evaluating the use of pre-recorded cross-examination (Section 28) for intimidated witnesses" (Ebrill 2023) Y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Ipsos UK.

Ar hyn o bryd, gall tystion sy'n agored i niwed ddefnyddio **cyfryngwr**. Mae cyfryngwyr yn helpu tystion ag anawsterau cyfathrebu penodol er mwyn sicrhau eu bod yn deall beth sy'n cael ei ofyn iddynt, a bod y llys yn deall eu tystiolaeth. Nid ydym yn credu bod angen i gyfryngwyr fod yn fesur safonol gan na fyddant yn briodol i bob achwynydd. Dylent fod ar gael o hyd fel mesur sydd angen cais i'r llys â thystiolaeth ynglŷn â'r effaith ar ansawdd tystiolaeth.

Yn y papur ymgynghori llawn rydym hefyd yn gwneud cynigion amodol ynglŷn â mesurau unigol, ar gyfer egluro neu ddiwygio o ran sut y maent yn gweithredu yn ymarferol. Er enghraifft, pan ddylai mesur atal y diffynnydd rhag gweld yr achwynydd (yn hytrach nag atal yr achwynydd rhag gweld y diffynnydd), ac ym mha wrandawiadau, yn ogystal â'r treial, y dylai mesurau fod ar gael.

### Cwestiwn 15 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol fod â hawl awtomatig i'r mesurau safonol a ganlyn i'w cynorthwyo i roi tystiolaeth, â'r gallu i wneud cais i'r llys am fesurau ychwanegol:

1. defnyddio cyswllt byw i fod yn bresennol yn y llys a rhoi tystiolaeth o bell;
2. defnyddio sgriniau yn y llys;
3. cael cefnogwr yn bresennol, gan gynnwys wrth roi tystiolaeth, boed yn bersonol neu drwy gyswllt byw;
4. tynnu perwigiau a gynau tra maent yn rhoi tystiolaeth;
5. mynedfeydd ac ystafelloedd aros hygyrch, ar wahân;
6. cau'r cyhoedd allan o ystafell y llys tra bydd yn rhoi tystiolaeth wyneb yn wyneb, drwy gyswllt byw neu drwy chwarae tystiolaeth wedi'i recordio; a
7. recordio tystiolaeth.

A ydych yn cytuno?

A oes unrhyw fesurau eraill a ddylai fod ar gael yn safonol i achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol i hwyluso eu presenoldeb yn y llys a'u hymgysylltiad yn y gweithdrefnau, gan gynnwys rhoi tystiolaeth?

Credwn y byddai manteision hawl awtomatig yn cael eu cefnogi ymhellach drwy adnabod yr angen am fesurau yn gynharach, a gwell gwybodaeth a chyngor i achwynwyr ynglŷn â beth sydd ar gael. Un ffordd o wneud hyn fyddai drwy roi cyngor a chymorth cyfreithiol annibynnol i achwynwyr i'w helpu â pha fesurau sydd ar gael a pha rai, os o gwbl, allai fod o fudd yn eu hachos unigol. Rydym yn trafod gweithrediad posibl cyngor cyfreithiol annibynnol yn fwy cyffredinol isod.

**Cwestiwn 16 yn y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol gael mynediad at gyngor a chymorth cyfreithiol annibynnol mewn perthynas â'u hawl i fesurau i'w cynorthwyo i roi tystiolaeth. A ydych yn cytuno?

Rydym yn trafod mesurau eraill i sicrhau bod yr angen am fesurau i gynorthwyo achwynwyr i roi tystiolaeth yn cael ei adnabod yn gynnar yn y papur ymgynghori llawn.

## Mesurau arbennig i ddiffynyddion

Mae'r darpariaethau presennol ar gyfer mesurau arbennig i ddiffynyddion yn gymwys i ddiffynyddion ym mhob erlyniad troseddol. Yn wahanol i fesurau ar gyfer achwynwyr, nid oes darpariaeth sy'n benodol ar gyfer achosion troseddau rhywiol.

Mae Pennod IA o Ddeddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn darparu ar gyfer defnyddio cyswllt byw[34] a chyfryngwyr[35] ar gyfer diffynyddion os ydynt yn bodloni'r meini prawf a ganlyn:

1. Dan 18 oed a'u gallu i gymryd rhan yn effeithiol drwy roi tystiolaeth lafar yn cael ei "lleihau" oherwydd lefel eu gallu deallusol neu weithrediad cymdeithasol".[36]
2. Dros 18 oed ac yn dioddef o anhwylder meddyliol,[37] neu â "nam sylweddol ar ddeallusrwydd a gweithrediad cymdeithasol", ac o ganlyniad yn methu â chymryd rhan yn effeithiol drwy roi tystiolaeth lafar.[38]

Mae gan y llysoedd hefyd bwerau i wneud addasiadau eraill mewn treial i sicrhau bod diffynyddion sy'n agored i niwed yn gallu cymryd rhan yn yr achos. Fodd bynnag, mae anghydbwysedd rhwng tystion a diffynyddion agored i niwed o ran eu cymhwysedd ar gyfer mesurau statudol mewn achosion troseddau rhywiol.

**Cwestiwn 17 yn y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ddylid cael darpariaethau penodol, neu wahanol ar gyfer mesurau i gynorthwyo diffynyddion mewn erlyniadau troseddau rhywiol i roi tystiolaeth, ar wahân i'r rhai sydd ar gael ar hyn o bryd i bob diffynnydd agored i niwed.

34 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 33A.
35 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, adran 33BA.
36 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, is-adrannau 33A(4)(a), 33BA(5).
37 O fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983.
38 Deddf Cyfiawnder i'r Ifanc a Thystiolaeth Droseddol 1999, is-adrannau 33A(5)(a) a (b), 33BA(6)(a) a (b).

# Cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth i achwynwyr

Mae'r broses cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr yn "wrthwynebol"; mae'n seiliedig ar bartïon gwrthwynebol (yr erlyniad a'r amddiffyniad) yn ceisio argyhoeddi'r barnwr neu'r rheithgor ynglŷn â chryfder eu hachos. Mae'r erlyniad yn dwyn yr achos yn erbyn y diffynnydd ar ran y wladwriaeth, mae'r diffynnydd yn cyflwyno ei achos ac yn herio'r erlyniad. I wneud hynny, mae gan y diffynnydd hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Nid yw'r achwynydd yn barti yn yr achos troseddol. Os oes ganddo rôl ffurfiol, fel arfer mae fel tyst yr erlyniad. Mae'r erlyniad yn cynrychioli buddiannau'r wladwriaeth a'r cyhoedd. Er bod buddiannau'r achwynydd yn rhan bwysig o fudd y wladwriaeth, nid ydynt yn hollbwysig.

Mae achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol yn fwy tebygol na thystion troseddau eraill o weld eu gwybodaeth bersonol sensitif yn cael ei defnyddio fel tystiolaeth mewn treial, o orfod wynebu cwestiynau bychanol ac ymwthiol, ac o wynebu ceisiadau datgelu eang am eu cofnodion personol. Mae natur breifat y dystiolaeth a gyflwynir mewn ceisiadau i dderbyn tystiolaeth o ymddygiad rhywiol[39] neu gofnodion personol[40] yn ysgogi hawl yr achwynydd i barch i'w fywyd preifat dan erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ac eto fel arfer maent yn methu ag ymateb i'r cais pan fydd y llys yn ei ystyried. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ddylai achwynwyr mewn erlyniadau troseddau rhywiol gael hawl i gymryd rhan, yn cael eu cefnogi gan gyngor cyfreithiol annibynnol neu gynrychiolaeth i'w helpu i ganfod eu ffordd o gwmpas y broses a herio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu hawliau yn briodol.

Ar hyn o bryd, gall achwynwyr ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol os ydynt yn rhoi cyfarwyddyd ac yn talu am gyfreithiwr yn breifat, ond mae'n bosibl na fydd y cynghorydd yn ymgysylltu â'r partïon eraill nac yn gweld yr holl ddogfennau neu dystiolaeth. Yn gyffredinol, nid oes gan achwynwyr hawl i gynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol cyn nac yn ystod achos llys.

**Cyngor cyfreithiol** – cyngor sy'n cael ei ddarparu gan weithiwr proffesiynol cymwysedig, annibynnol i unigolyn ynglŷn â mater, cwestiwn neu achos penodol yn seiliedig ar ei gyfarwyddiadau. Mewn rhai achosion, gall y cyngor gynnwys "cymorth" sy'n ymwneud ag ymgysylltu â deunydd, partïon neu sefydliadau eraill ar ran yr unigolyn lle caniateir hynny.

**Cynrychiolaeth gyfreithiol** – lle mae unigolyn â chymhwyster cyfreithiol yn gweithredu ar ran unigolyn naill ai cyn neu yn ystod achos llys drwy dderbyn cyfarwyddiadau, rhoi cyngor, a chyflwyno sylwadau i bartïon eraill neu i'r llys ar ei ran.

39 E Keane a T Convery, Proposal for independent legal representation for complainers where an application is made to lead evidence of their sexual history or character (Awst 2020) t 16.

40 *WF v Scottish Ministers* [2016] CSOH 27.

Er bod yr erlyniad yn gallu codi dadleuon ar ran yr achwynydd, nid oes rhaid iddo a gallai ei safbwynt mewn gwirionedd fod yn groes i safbwynt yr achwynydd. Pe bai gan achwynwyr hawl i gymryd rhan mewn ceisiadau yn ymwneud â'u tystiolaeth o ymddygiad rhywiol neu gofnodion personol, byddent yn gallu cyflwyno eu safbwynt i'r llys yn uniongyrchol. Gallent hefyd ddarparu gwybodaeth gyd-destunol hanfodol i'r llys am eu cofnodion a'u hanes eu hunain na all unrhyw barti arall ei wneud. Byddai hawl i gymryd rhan hefyd yn rhoi cyfle i achwynwyr herio ceisiadau amhriodol yn uniongyrchol. Dau barti sydd yn y rhan fwyaf o achosion troseddol, yr erlyniad a'r amddiffyniad, ond mae adegau pan fydd gan drydydd parti hawl i gymryd rhan mewn achos troseddol.[41] Yn wir, mae gan achwynwyr hawl gyfyngedig i gyflwyno sylwadau i'r llys mewn rhai achosion lle gofynnir am wŷs tyst mewn cysylltiad â'u cofnodion personol.[42]

Ochr yn ochr â'r achos am hawl i gymryd rhan, credwn fod mantais glir i'r achwynydd gael cyngor cyfreithiol annibynnol (i'w helpu i ddeall ei hawliau, y cais a'r weithdrefn) a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol (i gynrychioli ei fuddiannau yn y ffordd fwyaf effeithiol a herio ceisiadau amhriodol. Rydym yn nodi bod awdurdodaethau tebyg eisoes yn darparu cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol i ryw raddau.[43] Gallai cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol o gamau cynnar achos helpu i rymuso a darparu gwybodaeth i achwynwyr, gan helpu i adnabod a datrys materion sy'n ymwneud â datgelu a derbynioldeb eu gwybodaeth bersonol sensitif yn gynnar.



Gallai sicrhau bod gan y llys yr holl wybodaeth a'r dadleuon perthnasol ynglŷn â hawliau preifatrwydd yr achwynydd, bod rhywun yn craffu'n briodol ar y ceisiadau hyn a bod y penderfyniadau sensitif, anodd hyn yn seiliedig ar ffeithiau priodol.

Gallai manteision cyngor a chynrychiolaeth gan weithiwr cyfreithiol proffesiynol sy'n gweithredu er budd yr achwynydd gael effaith gadarnhaol ehangach ar broses y treial. Fe wnaeth cynllun peilot ddarparu cyngor cyfreithiol annibynnol i oedolion a oedd yn achwynwyr trais rhywiol yn Northumbria mewn cysylltiad â'u hawliau preifatrwydd a gwybodaeth gyffredinol am y broses gyfreithiol. Canfu gwerthusiad o'r peilot y gallai cyngor cyfreithiol annibynnol wella profiadau'r achwynydd o'r system cyfiawnder troseddol, gan leihau nifer yr achosion lle roedd achwynwyr yn tynnu eu cwyn yn ôl, a gwella diwylliant ac arferion ceisiadau am gofnodion personol.[44]

41 Er enghraifft, mewn achosion atafaelu dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, ceisiadau yn ymwneud â'r wasg a chyfyngiadau gohebu, a cheisiadau i beidio â datgelu oherwydd imiwnedd budd y cyhoedd.

42 Rheolau Trefniadaeth Droseddol, rh 17.5(3), 17.5(4), yn dilyn *R (TB) v The Combined Court at Stafford* [2006] EWHC 1645 (Admin).

43 Yn cynnwys yr Alban, Iwerddon, Gogledd Iwerddon, Canada a De Cymru Newydd.

44 O Smith, ac E Daly, Final Report: Evaluation of the Sexual Violence Complainants' Advocate Scheme, (Rhagfyr 2020).

Er hyn, mae pryderon y byddai cyflwyno hawl i gymryd rhan â chyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol yn newid rhy fawr i'r system wrthwynebus, ac y gallai olygu bod y diffynnydd i bob pwrpas yn wynebu dau erlynydd. Yn ein barn amodol, byddai hawl gyfyngedig i gymryd rhan mewn ceisiadau penodol yn unig, a chwmpas a rôl glir i gynrychiolwyr cyfreithiol, yn helpu i reoli'r risg hon fel bod unrhyw effaith ar y system wrthwynebus yn gymesur a bod hawl y diffynnydd i dreial teg yn cael ei ddiogelu.

Gallai ymestyn darparu cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol arwain at oedi a chostau. Lle bo gan drydydd parti hawl i gymryd rhan a chael ei gynrychioli, mae angen amser i roi cyfarwyddyd i gyfreithiwr, ac i'r cyfreithiwr baratoi a chyflwyno achos yn y llys. Byddai cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol yn galw am ddigon o gyllid cyhoeddus i sicrhau bod y manteision ar gael i'r holl achwynwyr mewn pryd i helpu i leihau oedi. Er bod adnoddau yn aml yn brin, mae'r astudiaeth beilot yn ein sicrhau nad yw cost darparu cynllun cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol mewn ffordd gyfyngedig yn sylweddol.[45] Gallai cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol greu arbedion effeithlonrwydd mewn mannau eraill; ar hyn o bryd mae cyfreithwyr yn archwilio swm anghymesur o gofnodion personol a gellid osgoi hynny.

Rydym yn dod i'r casgliad yn amodol mai dull wedi'i dargedu o ddarparu hawl i gymryd rhan, cyngor cyfreithiol annibynnol a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol yw'r ffordd orau o sicrhau'r manteision a ddisgrifiwyd tra'n lleihau unrhyw effaith negyddol ar y model gwrthwynebus, oedi a chost. Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd hwn, credwn fod achos y gellir ei gyfiawnhau dros roi hawl i achwynwyr gymryd rhan dim ond mewn ceisiadau sy'n ymwneud â'u cofnodion personol eu hunain a thystiolaeth o ymddygiad rhywiol, ac ymestyn cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol gan weithwyr cyfreithiol cymwysedig proffesiynol wedi'i ariannu ag arian cyhoeddus i wneud hyn. Yn ein barn amodol, byddai rhoi statws parti llawn i'r achwynydd yna'i wneud yn barti cyfartal â'r erlyniad a'r amddiffyniad yn anghymesur.

Gallai cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol gynnwys cymysgedd o daflenni gwybodaeth, cyngor ar-lein, dros y ffôn a wyneb yn wyneb, cymorth a chynrychiolaeth pan fydd angen a phan fo'n briodol. Yn y papur ymgynghori llawn rydym yn ystyried hyn, ac ystyriaethau ymarferol eraill, i helpu i gynllunio model o gyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol sy'n gynhwysfawr, yn gymesur, yn effeithiol, a chosteffeithiol, a lle mae rôl y cynghorydd a'r cynrychiolydd wedi'u diffinio'n dda ac yn cael eu deall.

### Cwestiwn 18 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai achwynwyr mewn achosion troseddau rhyw, mewn perthynas â cheisiadau sy'n ymwneud â'u cofnodion personol a thystiolaeth o ymddygiad rhywiol gael:

1. mynediad at gyngor a chymorth cyfreithiol annibynnol;
2. yr hawl i gymryd rhan mewn ceisiadau i'r llys mewn perthynas â derbyn cofnodion personol a thystiolaeth o ymddygiad rhywiol; a
3. mynediad at gynrychiolaeth gyfreithiol annibynnol pan mae ganddynt hawl i gymryd rhan mewn ceisiadau p'un a ydynt yn codi cyn y treial, neu yn ystod y treial yn absenoldeb y rheithgor.

A ydych yn cytuno?

45 Roedd gwerthusiad y cynllun peilot yn amcangyfrif y byddai costau cyflwyno cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i achwynwyr troseddau rhyw yng Nghymru a Lloegr yn £3.9 miliwn y flwyddyn: O Smith, ac E Daly, Final Report: Evaluation of the Sexual Violence Complainants' Advocate Scheme, (Rhagfyr 2020).

# Cyfyngiadau ar gynnal treialon troseddau rhywiol

Yn y treial, bydd ar eiriolwyr ar ran yr erlyniad a'r amddiffyniad eisiau gofyn cwestiynau i'r tystion a gwneud araith i'r rheithgor. Pan fyddant yn gwneud hyn, mae'n bwysig nad ydynt yn dibynnu ar fythau neu gamsyniadau am droseddau rhywiol. Gallai hynny olygu bod y rheithgor yn gwneud penderfyniad sy'n cael ei ddylanwadu gan y mythau neu'r camsyniadau hynny, yn hytrach na phenderfyniad sy'n seiliedig ar asesiad teg o'r dystiolaeth. Mae hefyd yn bwysig ar gyfer y tystion ac o ran hyder y cyhoedd nad oes cwestiynau amherthnasol yn cael eu gofyn i achwynwyr. Gallai cwestiynau sy'n seiliedig ar fythau a chamsyniadau amharu ar hawl yr achwynydd i barch i'w fywyd preifat dan erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Er hyn, rhaid cefnogi diffynyddion i gyflwyno eu hachos er mwyn iddynt gael treial teg, sy'n cael ei ddiogelu dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

## Hyfforddiant

Bydd pob barnwr a'r rhan fwyaf o eiriolwyr wedi cael hyfforddiant penodol ynglŷn â mythau a chamsyniadau cyn iddynt ddechrau gweithio ar achos troseddau rhywiol. Fodd bynnag, nid yw'r hyfforddiant yn orfodol i eiriolwyr, a bydd rhai heb gael hyfforddiant penodol. Gallai hyfforddiant ar fythau a chamsyniadau leihau'r graddau y dibynnir arnynt mewn treial, yn enwedig lle mae hyn yn digwydd oherwydd diffyg profiad neu anwybodaeth. Mewn cyd-destunau cyfreithiol eraill, fel yn y Llys Ieuenctid, mae hyfforddiant penodol yn orfodol cyn y gall ymarferwyr ymgymryd ag achosion.

Rhai o risgiau posibl hyfforddiant yw na fyddent yn cael llawer o effaith, a byddai angen gwirio a diweddaru'r cyrsiau i wneud yn siŵr nad ydynt yn achosi i stereoteipiau barhau. Lle nad yw dibyniaeth ar fythau a chamsyniadau'n deillio o ddiffyg gwybodaeth, efallai na fyddai hyfforddiant yn helpu. Yn ychwanegol at hyn, mae beichiau ariannol, rheoleiddiol a gweinyddol sylweddol ar fargyfreithwyr, a gallai gofyniad yn ymwneud â hyfforddiant olygu bod eiriolwyr yn gwrthod ymgymryd ag achosion troseddau rhywiol sy'n cael eu hariannu ag arian cyhoeddus.

**Cwestiwn 19 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ddylai ymarferwyr orfod cael hyfforddiant ar fythau a chamsyniadau cyn y gallant weithio ar achosion troseddau rhywiol?

## Ymddygiad

Ni all bargyfreithwyr ofyn cwestiynau i dyst oni bai eu bod yn **berthnasol** i'r achos. Os yw'r cwestiynau'n amherthnasol, yna dylai'r barnwr stopio'r cwestiynau. Yn y cyd-destun hwn, gallai cwestiynau fod yn amherthnasol oherwydd eu bod yn seiliedig ar fythau a chamsyniadau am droseddau rhywiol. Mae rhai astudiaethau arsylwi ar dreialon, lle mae ymchwilwyr yn mynd i dreialon go iawn ac yn gwneud nodiadau ynglŷn â beth sy'n digwydd, wedi nodi bod bargyfreithwyr yn dibynnu ar fythau a chamsyniadau mewn treial. Mae'n bwysig bod yn ofalus wrth ystyried y dystiolaeth hon, gan fod maint y samplau yn yr astudiaethau yn fach ac nid yw'r arsylwyr yn cael mynediad at bapurau achos na cheisiadau cyn treial, felly mae'n bosib nad ydynt yn gwybod rhai manylion pwysig.
Er hyn, mae'n werth ystyried ffyrdd o sicrhau na ddibynnir ar fythau a chamsyniadau mewn treial.

Un ffordd o ddelio â hyn fyddai gwahardd cwestiynau am bynciau penodol. Fodd bynnag, weithiau bydd cwestiynau ar drywydd penodol yn berthnasol ar ffeithiau achos penodol, lle byddent yn amherthnasol mewn achos arall. Er enghraifft, pe gofynnid i achwynydd pam ei fod wedi aros am bythefnos cyn rhoi gwybod i'r heddlu am drosedd, byddai hynny'n amherthnasol. Mae tystiolaeth yn dangos bod llawer o bobl yn oedi cyn rhoi gwybod am drosedd. Nid yw oedi yn effeithio ar y cwestiwn a yw'r adroddiad yn gywir ai peidio.

Fodd bynnag, weithiau gallai cwestiwn fel hwn fod yn berthnasol. Er enghraifft, os yw'r diffynnydd yn dweud bod yr achwynydd wedi ffugio'r honiad oherwydd ei fod yn flin ar ôl ysgarmes, ac mai dyna pryd y gwnaeth yr honiad. Gallai bargyfreithiwr y diffynnydd ofyn pam y gwnaeth yr achwynydd aros am bythefnos cyn mynd at yr heddlu.

Byddai'n berthnasol i achos yr amddiffyniad bod y gŵyn yn anwir a'i bod wedi'i gwneud o ganlyniad i ddicter. O ganlyniad, dylid caniatáu i'r bargyfreithiwr ofyn y cwestiwn, er mwyn i'r diffynnydd gael treial teg ac i'r rheithgor allu asesu achos yr amddiffyniad yn briodol. O ganlyniad, nid ydym yn credu y dylid gwahardd gofyn cwestiynau ar ambell drywydd yn gyfan gwbl.

Mae safon uwch na pherthnasedd wedi'i chymhwyso i rai mathau o dystiolaeth. Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth am ymddygiad rhywiol, ac rydym wedi cynnig yn amodol y dylai gynnwys tystiolaeth am hawliadau iawndal. Ar wahân i'r categorïau hyn o dystiolaeth, rydym yn cynnig yn amodol y dylai perthnasedd barhau fel trothwy ar gyfer cwestiynau derbyniol. Mae hyn oherwydd bod mythau a chamsyniadau eraill a allai godi mewn cwestiynau yn anos i'w diffinio, yn cael effaith lai niweidiol ar y treial ac ar y rheithgor o bosibl, a gallai'r dystiolaeth fod yn berthnasol ar ffeithiau achos penodol.

| **Ar hyn o bryd** | **Cynnig amodol** |
|---|---|
| Rhaid i bob cwestiwn a ofynnir i dystion gan fargyfreithwyr fod yn berthnasol.<br><br>Rhaid i dystiolaeth sy'n ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn berthnasol A rhaid iddi fod yn dderbyniol dan adran 41. | Rhaid i bob cwestiwn a ofynnir i dystion gan fargyfreithwyr fod yn berthnasol.<br><br>Rhaid i dystiolaeth sy'n ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol fod yn berthnasol A rhaid iddi gael ei derbyn dan ein model disgresiwn strwythuredig.<br><br>Rhaid i dystiolaeth sy'n ymwneud â hawliad iawndal am anafiadau troseddol fod yn berthnasol â rhaid iddi gael ei derbyn dan ein model disgresiwn strwythuredig. |

Er ein bod yn cynnig yn amodol mai perthnasedd ddylai'r trothwy fod o hyd, mae'n bwysig iawn bod barnwyr a bargyfreithwyr yn ystyried yn briodol a yw cwestiynau yn berthnasol. Gellid annog hyn mewn nifer o ffyrdd. Un ffordd bosibl fyddai rhoi'r trothwy perthnasedd mewn statud, â rhestr o ffactorau y dylai barnwyr eu hystyried i'w helpu i benderfynu a yw trywydd y cwestiynau yn berthnasol. Gellid hefyd ei gwneud yn ofynnol i farnwyr a chwnsleriaid drafod trywydd eu cwestiynau cyn y treial, a allai olygu bod y barnwr yn cymeradwyo ambell drywydd ac yn gwrthod rhai eraill.

Mae manteision ac anfanteision i'r awgrymiadau hyn i annog cymhwyso'r trothwy perthnasedd. Mae'n bosibl na fyddai rhoi'r trothwy mewn statud yn gwneud unrhyw wahaniaeth, o ystyried mai perthnasedd yw'r prawf ar hyn o bryd. Yn ogystal, gallai gofyn i farnwyr gymeradwyo trywydd cwestiynau ymlaen llaw ychwanegu at yr oedi mewn treialon, a bod yn faich ar farnwyr.

**Cwestiwn 20 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ydych yn cytuno y dylid caniatáu i fargyfreithwyr ofyn cwestiynau a allai ymwneud â mythau a chamsyniadau os ydynt yn berthnasol, yn hytrach na defnyddio trothwy uwch fel rydym yn ei gynnig ar gyfer tystiolaeth o ymddygiad rhywiol neu hawliadau iawndal?

Sut rydych yn meddwl y gellid gwella'r broses o gymhwyso'r safon perthnasedd?

## Penderfyniadau a wneir gan y rheithgor

Mewn treialon troseddau rhywiol, rheithgorau sy'n penderfynu yn y pen draw ynglŷn â'r ffeithiau a ganddyn nhw y mae'r dasg o benderfynu a yw diffynnydd yn euog.

Mae anghydfod ynglŷn â'r graddau y gallai rheithgorau wneud camgymeriadau yng nghyswllt mythau rhywiol, ond mae'r ymchwil presennol yn y maes hwn yn awgrymu ei bod yn bosibl nad oes gan reithwyr wybodaeth gywir ynglŷn â sut y mae dioddefwyr yn ymateb i drais rhywiol, a bod hynny'n achosi iddynt fwrw ymlaen ar sail mythau a chamsyniadau. Gallai mythau a chamsyniadau ynglŷn â thrais rhywiol felly gael eu defnyddio'n anfwriadol gan reithwyr wrth ystyried ffeithiau'r achos, a dibynadwyedd adroddiad yr achwynydd neu'r diffynnydd. O ganlyniad, gall cred anghywir ond didwyll gan reithwyr halogi'r broses wneud penderfyniadau ac arwain rheithgor i wneud camgymeriad trwy amryfusedd er gwaethaf eu bwriadau da.

Rydym felly wedi ystyried sut y dylid cyfleu gwybodaeth yn uniongyrchol i reithwyr, yn ystod treialon troseddau rhywiol, er mwyn sicrhau eu bod yn gwerthuso'r dystiolaeth sydd ger eu bron yn deg heb ddylanwad mythau a chamsyniadau. Rydym yn rhoi sylw arbennig i dri dull: cyfarwyddiadau barnwrol, tystiolaeth arbenigwyr, a dulliau amrywiol eraill o addysgu rheithwyr.

Wrth geisio mynd i'r afael â mythau a chamsyniadau drwy gyfarwyddiadau barnwrol ac addysgu rheithwyr, mae hawl diffynnydd i dreial teg a hawl yr achwynydd i barch i'w fywyd preifat, sydd i'w gweld yn erthyglau 6 ac 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn y drefn honno, ill dwy yn cael eu hystyried. Pan fydd barnwyr yn cynnal treialon ac yn rheoli'r croesholi rhaid iddynt sicrhau cydbwysedd teg rhwng buddiannau'r diffynnydd sy'n herio'r dystiolaeth yn ei erbyn a gonestrwydd personol ac urddas yr achwynydd.[46]

46 *J.L. v Italy* (2021) Rhif y Cais 5671/16 (wedi'i gyfieithu o'r Ffrangeg), para 128.

## Cyfarwyddiadau barnwrol

Yn ystod treial troseddau rhywiol, anogir barnwyr i roi cyfarwyddiadau amrywiol i'r rheithgor. Mae cyfarwyddiadau yn cael eu rhoi gan farnwr i'r rheithgor ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith neu weithdrefnau. Mae rhai cyfarwyddiadau wedi'u cynllunio'n benodol i wrthwynebu'r camsyniadau cyffredin a allai atal y rheithgor rhag ystyried y dystiolaeth sydd ger eu bron yn briodol. Mae cyfarwyddiadau enghreifftiol amrywiol i'w gweld yng Nghompendiwm Llys y Goron. Er enghraifft, mae cyfarwyddyd enghreifftiol yn egluro pam y gallai achwynydd oedi cyn gwneud cwyn.

Yn ogystal â chyfarwyddyd cyffredinol yn ymwneud â pheidio â gwneud tybiaethau, mae'r cyfarwyddiadau enghreifftiol ar gyfer achwynwyr sy'n oedolion yn ymdrin â phynciau:

- oedi cyn rhoi gwybod;
- cwyn sy'n cael ei gwneud am y tro cyntaf wrth roi tystiolaeth;
- cysondeb neu anghysondeb rhwng adroddiadau;
- emosiwn neu drallod wrth wneud cwyn neu roi tystiolaeth;
- dillad;
- meddwdod;
- gweithgaredd rhywiol blaenorol gyda'r diffynnydd;
- dim gwrthsefyll neu anaf;
- y diffynnydd mewn perthynas.

Bydd y cyfarwyddiadau penodol a roddir gan y barnwr yn cael eu teilwra ar gyfer y materion a godir yn yr achos.

Roedd yr academyddion a'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â hwy yn anghytuno ynglŷn â'r cwestiwn a yw cyfarwyddiadau barnwrol yn effeithiol ai peidio. Gall cyfarwyddiadau fod yn anodd i reithwyr eu deall, gallai barnwyr fod yn eu defnyddio yn anghyson, neu efallai eu bod yn methu â rhoi sylw i gredoau sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn ynddynt ynglŷn â mythau a chamsyniadau. Er hyn, dywedodd rhai barnwyr wrthym fod cyfarwyddiadau barnwrol, pan fyddant wedi'u teilwra'n briodol ar gyfer y dystiolaeth mewn achos penodol, yn gweithio'n dda a bod rheithwyr yn eu deall yn ddigonol. O ystyried y defnydd helaeth a wneir ohonynt yng Nghymru a Lloegr a'r gefnogaeth sydd ganddynt gan lawer o randdeiliaid, yn ogystal â barnwyr, hoffem wybod sut y gellid gwella cyfarwyddiadau er mwyn mynd i'r afael yn fwy effeithiol â mythau a chamsyniadau ymhlith rheithwyr.

Un ffordd o wneud gwelliannau yw drwy ddiwygio'r cyfarwyddiadau enghreifftiol presennol er mwyn adlewyrchu ymchwil ynglŷn ag ymatebion i drais rhywiol yn well. Er enghraifft, mae'r cyfarwyddiadau ar oedi cyn adrodd a rhewi wedi cael eu beirniadu gan nad ydynt yn adlewyrch canlyniadau astudiaethau am droseddau rhywiol.

Ffordd arall o wella'r cyfarwyddiadau presennol fyddai eu hymestyn i fythau neu gategorïau eraill o gwynion nad ydynt wedi'u cynnwys yn barod, er enghraifft achwynwyr gwrywaidd neu achwynwyr â chyflwr iechyd meddwl neu anabledd dysgu.

**Cwestiwn 21 y Crynodeb i'r Ymgynghoriad**

A ddylai unrhyw gyfarwyddiadau gael eu diwygio neu eu hychwanegu at y cyfarwyddiadau enghreifftiol presennol?

Ar hyn o bryd, gall barnwyr benderfynu a ydynt am roi cyfarwyddyd, ond mae ganddynt ddyletswydd barhaus i roi cyfarwyddiadau lle bo hyn yn briodol a lle byddai'n cynorthwyo'r rheithgor. Er mwyn gwella cysondeb yn y ffordd y mae barnwyr yn defnyddio'r cyfarwyddiadau enghreifftiol, rydym yn gofyn am eich barn, a ddylid, fel sy'n digwydd yn yr Alban, ar gyfer rhai mythau, rhagdybio y bydd y barnwr yn rhoi cyfarwyddyd perthnasol, oni bai fod rheswm da iddo beidio â gwneud hynny.[47]

Hyd yn oed pe bai rhagdybiaeth y dylid rhoi cyfarwyddyd, nid ydym yn awgrymu y dylid cael unrhyw ragdybiaeth ynglŷn â chynnwys y cyfarwyddyd a roddir gan y barnwr. Credwn mai'r barnwr ei hun ddylai fod yn teilwra cynnwys y cyfarwyddyd i gydweddu orau â ffeithiau'r achos.

**Cwestiwn 22 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ddylid cael rhagdybiaeth o blaid barnwyr yn rhoi cyfarwyddyd barnwrol am fythau, oni bai fod rheswm da dros beidio â gwneud hynny?

## Tystiolaeth arbenigwyr

Gellir derbyn tystiolaeth arbenigol i gynorthwyo'r barnwr a'r rheithgor i ddeall amrywiaeth o wahanol bynciau. Mae'r llysoedd wedi penderfynu na fydd tystiolaeth arbenigwyr yn dderbyniol oni bai fod ei hangen er mwyn darparu gwybodaeth fuddiol sy'n debygol o fod y tu hwnt i wybodaeth a phrofiad y barnwr neu'r rheithgor.

Mewn treialon troseddau rhywiol, gellir defnyddio tystiolaeth arbenigwyr i ddarparu dadansoddiad DNA ac esboniadau o anafiadau. Fodd bynnag, ni chaniateir tystiolaeth arbenigol yn egluro ymatebion ymddygiadol cyffredinol dioddefwyr trais rhywiol ac effeithiau seicolegol arnynt, yn ystod nac ar ôl yr ymosodiad.

Mae'r llysoedd wedi dod i'r casgliad, lle nad oes ar y rheithgor angen cymorth i ddeall mythau a chamsyniadau, mai'r ffordd briodol i ddelio gyda hyn yw drwy ddefnyddio cyfarwyddyd barnwrol.

Er hyn, mae sylwebwyr amrywiol yn cytuno bod ar reithwyr mewn gwirionedd angen cymorth i ddeall ymatebion dioddefwyr i drawma rhywiol er mwyn gwneud asesiad teg o'r dystiolaeth sydd ger eu bron, heb gael ei llygru gan gamsyniadau. Rydym yn cytuno â hyn yn amodol, gan fod ymatebion cyffredinol i drais rhywiol yn brosesau corfforol a seicolegol cymhleth, sydd at ei gilydd y tu hwnt i wybodaeth a phrofiad y rheithgor. Mae yna hefyd sail dystiolaeth gynyddol ynglŷn ag effeithiolrwydd tystiolaeth arbenigwyr a ddefnyddir mewn nifer o awdurdodaethau.

Er enghraifft, lle mae achwynydd wedi oedi cyn rhoi gwybod, gallai tystiolaeth arbenigwyr cyffredinol egluro bod oedi cyn rhoi gwybod i'r heddlu yn gyffredin a'r rhesymau amrywiol dros hyn. Byddai hyn yn berthnasol i fyth a godir ar ffeithiau'r achos, felly byddai'n helpu'r rheithgor â'u dealltwriaeth o'r dystiolaeth sydd ger eu bron. Fodd bynnag, ni fyddai wedi'i theilwra i amgylchiadau oedi'r achwynydd nac unrhyw eglurhad a roddwyd ganddo dros yr oedi hwnnw er mwyn sicrhau nad yw'r arbenigwr yn cryfhau adroddiad yr achwynydd mewn modd annheg. Rydym yn gofyn am farn ynglŷn â'r cwestiwn a ddylid defnyddio tystiolaeth arbenigwyr o ymatebion ymddygiadol cyffredinol i drais rhywiol mewn treialon i fynd i'r afael â mythau a chamsyniadau ymysg rheithwyr.

**Cwestiwn 23 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ddylid defnyddio tystiolaeth arbenigwyr o ymatebion ymddygiadol cyffredinol i drais rhywiol mewn treialon troseddau rhyw?

47 Deddf Trefniadaeth Droseddol (Yr Alban) 1995, is-adrannau 288DA a 288DB.

## Offer addysgu rheithwyr

Ar wahân i ddefnyddio cyfarwyddiadau barnwrol a thystiolaeth arbenigwyr, mae dulliau eraill o addysgu rheithwyr ynglŷn â mythau a chamsyniadau. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio hysbysiadau gwybodaeth i reithwyr a fideos addysgu rheithwyr, neu offeryn rhyngweithiol ar-lein.

Ym mhob llys yng Nghymru a Lloegr, rhoddir hysbysiad gwybodaeth gorfodol ar ddechrau'r treial, sef "Eich Cyfrifoldebau Cyfreithiol fel Rheithiwr". Mae ymchwil wedi'i wneud sy'n dangos pa mor effeithiol yw'r hysbysiad gwybodaeth hwn i reithwyr o ran gwella dealltwriaeth rheithwyr o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Er mai gwybodaeth gyffredinol yn unig fyddai mewn hysbysiad gwybodaeth i reithwyr yn trafod mythau a chamsyniadau, gallai gynyddu dealltwriaeth rheithwyr mewn treialon troseddau rhywiol.

Caniateir gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau rheithwyr drwy fideo addysgol ar hyn o bryd hefyd. Gallai fideo wedi'i anelu'n benodol tuag at fynd i'r afael â mythau a chamsyniadau gynnig ffordd fwy diddorol, hygyrch a chyson o roi sylw i fythau a chamsyniadau ymysg rheithwyr. Er hyn, prin yw'r sail dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd fideos addysgu rheithwyr o hyd.

Gallai offeryn ar-lein yn cynnwys tasgau rhyngweithiol helpu i leihau nifer y mythau a'r camsyniadau ymysg rheithwyr. Mae ymchwil ynglŷn ag offer addysgu rheithwyr wedi nodi manteision posibl offer rhyngweithiol ar-lein, er enghraifft eu bod yn gosteffeithiol, bod modd eu defnyddio ar gyfer niferoedd mwy o gyfranogwyr, a bod modd eu teilwra'n hawdd.



Gan nad oes llawer o dystiolaeth ar hyn o bryd ynglŷn â pha mor effeithiol yw hysbysiadau gwybodaeth i reithwyr, fideos addysgol, ac offer rhyngweithiol ar-lein o ran mynd i'r afael â mythau a chamsyniadau ynglŷn â thrais rhywiol, hoffem wybod beth yw eich barn chi ynglŷn â dulliau posibl o'u defnyddio. Hoffem wybod hefyd a oes unrhyw ddulliau eraill o fynd i'r afael â mythau a chamsyniadau ymysg rheithwyr y dylem eu hystyried.

Yn olaf, gan fod nifer o offer ar gyfer addysgu rheithwyr, mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â pha gyfuniadau sy'n debygol o fod yn fwyaf effeithiol er mwyn mynd i'r afael â mythau a chamsyniadau, a pha rai ddylai gael eu blaenoriaethu, ynghyd â chyfarwyddiadau barnwrol.

### Cwestiwn 24 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

Beth yw eich barn ynglŷn â dulliau o addysgu rheithwyr, gan gynnwys defnyddio hysbysiadau gwybodaeth, fideos ac offer rhyngweithiol ar-lein. Yn fwyaf arbennig, pa ddulliau yw'r rhai pwysicaf, ynteu a oes cyfuniad gorau o ddulliau?

## Hawl i apelio

Mae materion yn ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth, megis tystiolaeth o ymddygiad rhywiol a datgelu cofnodion personol, yn gymhleth ac yn sensitif. Maent yn effeithio ar hawl yr achwynydd i barch tuag at ei fywyd preifat ac maent yn agored iawn i risgiau cyflwyno mythau a chamsyniadau. Mae canlyniad y dyfarniadau hyn yn cael effaith sylweddol ar brofiad yr achwynydd a'i barodrwydd i ymgysylltu â'r achos yn ogystal â hyder y cyhoedd mewn erlyniadau troseddau rhywiol a'u dilysrwydd. Gallai hawl i apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn fod yn bwysig iawn, gan ddarparu lefel o oruchwyliaeth i helpu i sicrhau penderfyniadau cadarn, cyson a phriodol.

Mae'r penderfyniadau hyn yn effeithio ar ba dystiolaeth gaiff ei chlywed mewn treial, ac o ganlyniad maent yn benderfyniadau rhagarweiniol, sy'n cael eu gwneud cyn i'r treial ddod i ben. Os yw'n briodol i apelio yn erbyn y penderfyniadau hyn, byddai angen i'r apêl ddigwydd a chael ei phenderfynu cyn i'r dystiolaeth honno gael ei rhoi mewn treial.

Ar hyn o bryd, dim ond yr erlyniad a'r amddiffyniad sy'n gallu apelio yn erbyn dyfarniadau yn ymwneud â datgelu neu dderbynioldeb tystiolaeth yn ymwneud â chofnodion personol yr achwynydd neu dystiolaeth o ymddygiad rhywiol: nid oes gan yr achwynydd hawl i apelio.

Mae'r hawliau apelio i'r erlyniad a'r diffynnydd yn gyfyngedig. Ni all y diffynnydd apelio yn erbyn dyfarniadau derbynioldeb oni bai eu bod yn cael eu gwneud mewn **gwrandawiad paratoadol**.[48] Mae gwrandawiadau paratoadol yn anghyffredin,[49] ac ni ellir "cyfiawnhau" apêl sy'n deillio o'r dyfarniadau hyn cyn i'r treial ddod i ben, oni bai nad oes anghydfod ffeithiol ynglŷn â'r pwynt.[50] Mae dyfarniadau sy'n dibynnu'n llwyr ar y ffeithiau, er enghraifft rhai sy'n ymwneud â derbyn neu wahardd tystiolaeth o ymddygiad rhywiol neu gofnodion personol, felly'n annhebygol o gael eu hystyried yn addas ar gyfer apêl o'r fath.

Mae gan yr erlyniad hawl gyffredinol i apelio yn erbyn dyfarniadau paratoadol, gan gynnwys dyfarniadau yn ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth megis cofnodion personol a thystiolaeth o ymddygiad rhywiol.[51] Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny rhaid iddynt wneud "cytundeb rhyddfarnu", yn hysbysu'r llys eu bod yn cytuno y dylid rhyddfarnu'r diffynnydd os na roddir yr hawl i apelio neu os rhoddir y gorau i'r apêl.[52] Gall yr erlyniad felly apelio yn erbyn dyfarniad sy'n dod â'r achos i ben, neu sy'n achosi i hynny ddigwydd.[53] Mewn achosion anghyffredin, gall yr erlyniad hefyd ddewis gwneud cytundeb rhyddfarnu i apelio yn erbyn dyfarniad hyd yn oed os gallai'r erlyniad barhau er gwaetha'r dyfarniad. Mae cyfraith achosion wedi pennu bod y trothwy ar gyfer rhoi caniatâd yn uchel, a rhaid gallu "dadlau o ddifri" bod y dyfarniad yn ddefnydd afresymol o ddisgresiwn y barnwr.[54]

48 Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996, is-adrannau 35, 31(3). Mae gwrandawiadau paratoadol yn fath o wrandawiad cyn treial. Yn wahanol i wrandawiadau cyn treial eraill, dim ond mewn achosion twyll difrifol neu lle mae'r achos yn gymhleth, yn hir neu'n ddifrifol y gellir gorchymyn gwrandawiadau paratoadol ar gyfer rheoli achosion: adran 29. Rhaid i "fuddion sylweddol" godi hefyd o orchymyn y gwrandawiad, er enghraifft nodi materion perthnasol, cynorthwyo dealltwriaeth rheithwyr neu reoli'r treial.

49 *R v Lear* [2018] EWCA Crim 69, [2018] 2 Cr App R 11, yn [51].

50 *R v I(C)* [2009] EWCA Crim 1793, [2010] 1 Cr App R 10, yn [21]. Rhaid i'r pwynt hefyd fod "ar wahân, yn newydd [ac] yn sicr o godi".

51 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 58.

52 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, adran 58(8)-(9). Mae adran 62 yn cyflwyno hawl i'r erlyniad apelio yn erbyn dyfarniadau tystiolaethol heb gytundeb rhyddfarn, ond nid yw hyn wedi dod i rym eto.

53 Er enghraifft, lle mae'r barnwr wedi gorchymyn na ddylid cynnwys darn allweddol o dystiolaeth yr erlyniad.

54 *R v B* [2008] EWCA Crim 1144.

Mae cyfyngiadau'r darpariaethau presennol hyn yn golygu bod apeliadau cyn i'r treial ddod i ben am ddyfarniadau yn ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol a chofnodion personol yn anghyffredin iawn ar hyn o bryd. Byddai hawliau i apelio yn erbyn dyfarniadau barnwrol ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol a chofnodion personol yn darparu goruchwyliaeth farnwrol ychwanegol dros y materion cymhleth a sensitif hyn. Gallai hyn arwain at benderfyniadau wedi'u rhesymu'n well yn y lle cyntaf yn ogystal ag ymresymu gwell ynglŷn ag ansawdd. O ganlyniad, gellid cael hawl i apelio sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau sy'n ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol a chofnodion personol, yn hytrach na dim ond i un math o wrandawiad lle gallai ceisiadau o'r fath gael eu penderfynu. Byddai hyn yn galluogi pob parti i'r cais i apelio yn erbyn y dyfarniad cyn i'r treial ddod i ben.

Fodd bynnag, mae'n bosibl i apeliadau yn erbyn dyfarniadau cyn i'r treial ddod i ben achosi oedi a tharfu sylweddol gan fod angen penderfynu yn eu cylch hwy hefyd cyn y gall y treial ddod i ben. Rhaid i apeliadau yn erbyn dyfarniadau barnwrol yn Llys y Goron gael eu rhestru a'u gwrando yn y Llys Apêl; gall hyn gymryd amser. Mae'r achos yn gorfod aros nes bydd penderfyniad wedi'i wneud ynglŷn â'r apêl, gan achosi risg o oedi ac ychwanegu at waith llys sydd wedi crynhoi. Mae effaith hyn ar ei fwyaf os yw'r apêl yn codi ar ôl i'r treial ddechrau (gan y gallai'r ceisiadau perthnasol gael eu gwneud yn ystod y treial, er mai'r arfer gorau yw penderfynu ynglŷn â'r materion cyn treial). Oherwydd y pryderon hyn, mae arnom angen mwy o dystiolaeth i benderfynu ynglŷn â budd apeliadau o'i gymharu â'r risgiau.

**Cwestiwn 25 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ddylid cael hawl, i bob parti i'r cais perthnasol, i apelio yn erbyn y penderfyniad ynglŷn â chais i dderbyn tystiolaeth yn ymwneud â chofnodion personol neu ymddygiad rhywiol yr achwynydd?

## Hawliau apêl i achwynwyr

Nid oes gan achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth o ymddygiad rhywiol neu gofnodion personol. Er y gallai'r erlyniad gyflwyno apêl, nid yw buddiannau'r erlyniad yn gyson bob amser â rhai'r achwynydd. Mae'r ceisiadau hyn yn effeithio'n benodol ar hawl yr achwynydd i breifatrwydd; rydym yn egluro uchod pam ein bod yn meddwl felly y dylai achwynwyr gael hawl i gymryd rhan mewn ceisiadau o'r fath. Os oes ganddynt hawl i gymryd rhan, credwn y dylent hefyd gael hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad sy'n achosi risg o darfu ar eu hawliau preifatrwydd. Mantais caniatáu hawl i apelio yn erbyn dyfarniadau barnwrol ar dystiolaeth o ymddygiad rhywiol a chofnodion personol fyddai bod modd datrys materion yn ymwneud â derbynioldeb cyn y gwneir niwed sylweddol i fuddiannau preifatrwydd yr achwynydd drwy ganiatáu i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno yn ystod y treial.

Mae yna eisoes ddarpariaethau i ymestyn yr hawl i apelio i drydydd partïon mewn rhai achosion troseddol. Yn fwyaf arbennig, mae apêl yn erbyn cyfyngiadau ar ohebu neu orchymyn yn cau'r cyhoedd allan yn caniatáu i'r rhai hynny sy'n cael eu heffeithio – er enghraifft newyddiadurwyr neu sefydliadau'r cyfryngau – ei herio cyn i'r treial ddod i ben.[55]

Mantais rhoi hawl i apelio i achwynwyr fyddai bod modd datrys materion cyn y gwneir niwed sylweddol i'w buddiannau preifatrwydd. Er hyn, rydym yn ymwybodol o'r pryderon ynglŷn ag oedi a tharfu ac mai dim ond hawl gyfyngedig i apelio sydd gan yr erlyniad a'r amddiffyniad eu hunain cyn y rhoddir y dyfarniad. O ganlyniad, rydym yn cynnig yn amodol y dylai achwynwyr gael yr un hawl gyfyngedig i apelio ag sydd ar gael i ddiffynyddion ar hyn o bryd; hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau yn ymwneud â'u tystiolaeth o ymddygiad rhywiol neu gofnodion personol a wnaethpwyd mewn gwrandawiadau paratoadol.

55 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 159.

**Cwestiwn 26 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

Rydym yn cynnig yn amodol y dylai achwynwyr sydd â hawl i gymryd rhan mewn ceisiadau yn ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth ynglŷn â'u cofnodion personol neu ymddygiad rhywiol gael yr un hawl i apelio yn erbyn penderfyniad ar gais o'r fath ag a roddir i'r erlyniad a'r diffynnydd yn erbyn penderfyniadau a wneir mewn gwrandawiad paratoadol. A ydych yn cytuno?

## Estyniad pellach?

Mae cyfyngu hawliau apelio ar gyfer materion mor sensitif ac anodd i benderfyniadau a wneir mewn gwrandawiadau paratoadol yn golygu mai amseriad cais sy'n pennu a oes hawl i apelio ai peidio. O'r hyn a ddeallwn ni, hyd yn oed mewn achosion lle gellid gorchymyn gwrandawiadau paratoadol, yn anaml iawn y cânt eu defnyddio. Mae gan yr erlyniad hawliau ychwanegol i apelio yn erbyn dyfarniadau barnwrol nad ydynt yn cael eu gwneud mewn gwrandawiadau paratoadol. Er nad oes gan y diffynnydd hawl bellach i apelio yn erbyn dyfarniadau barnwrol, os yw'n cael ei ganfod yn euog gall herio dyfarniad y gellid dadlau ei fod wedi arwain i'r euogfarn honno fod yn anniogel. Nid yw'r hawliau apelio hyn ar gael i'r achwynydd, ac eto ei breifatrwydd ef/hi sydd wedi cael ei dorri yn barod o bosibl gan y penderfyniad i dderbyn y dystiolaeth.

O ganlyniad, rydym yn gofyn a yw'n briodol ymestyn hawliau apelio i achwynwyr y tu hwnt i'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i ddiffynyddion a'r erlyniad yn erbyn dyfarniadau a wneir mewn gwrandawiadau paratoadol a ddefnyddir yn anaml.

Mae dwy ffordd bosibl o ymestyn hawliau apelio i achwynwyr ymhellach:

1. Gwell defnydd o wrandawiadau paratoadol. Byddai hyn yn cynyddu nifer y ceisiadau yn ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol a chofnodion personol achwynwyr sy'n cael eu penderfynu mewn gwrandawiadau paratoadol, ac sydd felly'n dwyn hawl i apelio yn ei sgil.
2. Ymestyn i'r achwynydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau barnwrol yn ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad rhywiol a chofnodion personol heb fod yn gyfyngedig i benderfyniadau a wneir mewn gwrandawiadau paratoadol.

**Cwestiwn 27 y Crynodeb i'r Ymgynghoriad**

Rydym yn gwahodd barn am y canlynol:

1. A ellid gwneud gwell defnydd o wrandawiadau paratoadol er mwyn penderfynu ynglŷn â cheisiadau sy'n ymwneud â derbynioldeb tystiolaeth ynghylch cofnodion personol neu ymddygiad rhywiol yr achwynydd? Byddai hyn yn cynyddu nifer y ceisiadau yn ymwneud â thystiolaeth o ymddygiad troseddol a chofnodion personol achwynwyr a fyddai â hawl apelio i'r achwynydd, yn ogystal ag i'r diffynnydd a'r erlyniad.
2. A ddylai'r achwynydd gael unrhyw hawl bellach i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch derbynioldeb tystiolaeth sy'n ymwneud â'i gofnodion personol neu ymddygiad rhywiol, nad yw'n gyfyngedig i benderfyniadau a wneir mewn gwrandawiadau paratoadol?

## Diwygio cyfannol

Drwy gydol ein papur ymgynghori rydym yn gwahodd adborth drwy ystyried materion a gofyn cwestiynau agored ynglŷn ag opsiynau diwygio ac, mewn rhai achosion, gwneud cynigion amodol ar gyfer newid. Fodd bynnag, hoffem hefyd glywed eich barn yn fwy cynhwysfawr ynglŷn ag effaith gyfunol a chronnus y mesurau hyn, a pha fesurau ddylai gael blaenoriaeth. Mewn geiriau eraill, rydym yn dymuno archwilio materion yn gyfannol.

Mae angen safbwynt cyfannol oherwydd natur eang ein cylch gorchwyl, ac mae adolygiadau tebyg mewn awdurdodaethau eraill wedi mabwysiadu'r dull gweithredu hwn hefyd. Heb ddull gweithredu cyfannol, mae'n bosibl na allwn gyflawni ein hamcanion cyffredinol. Yn ogystal, mae'n bosibl na fydd newid cynyddrannol mewn cysylltiad ag elfennau ar wahân o broses y treial yn arwain at newid ystyrlon ar draws y system mewn cysylltiad â'r hyn sydd yn fater cymhleth.

Er mwyn archwilio effeithiau cyfunol a chronnus mesurau mae angen gwerthuso eu heffaith ar broses y treial, partïon ac achwynwyr. Gellir pennu'r effaith drwy gyfeirio at fesurau amrywiol, gan gynnwys gwariant y llys a chostau partïon, yn ogystal â ffactorau anariannol megis oedi mewn gweithdrefnau a nifer yr achosion sy'n cael eu tynnu yn ôl gan nad yw'r achwynydd yn cefnogi'r erlyniad mwyach.

**Mae diwygio tameidiog wedi bod yn ffactor yn y methiant i liniaru "diffygion hyder" a "bylchau cyfiawnder" achwynwyr mewn achosion troseddau rhywiol, "er gwaethaf degawdau o ddiwygio".[56]**

Yr Athro Vanessa Munro

56 V E Munro, "A Circle That Cannot Be Squared? Survivor Confidence in an Adversarial Justice System" yn M A H Horvath a J M Brown (gol.), *Rape: Challenging contemporary Thinking – 10 years on* (2023), tt 203-217, 208 a 214.

## Opsiynau ar gyfer diwygio

Hoffem glywed eich barn ynglŷn â pha gyfuniadau o fesurau sy'n arbennig o effeithiol a buddiol, pa rai sy'n achosi pryder, a pha rai ddylai gael blaenoriaeth, gan gyfeirio at y mathau canlynol o ffactorau ac unrhyw rai eraill y credwch eu bod yn berthnasol:




### Effaith bositif ar brofiadau achwynwyr

Gallai rhai cyfuniadau o fesurau fod yn fwy effeithiol er mwyn gwella'r ffordd y caiff achwynwyr eu trin nag unrhyw fesurau unigol ar eu pen eu hunain. Gallai gwelliannau gynnwys cynyddu hyder achwynwyr yn y broses, annog rhoi gwybod a chynnal eu hymgysylltiad.

### Effeithiau cadarnhaol mewn rhannau eraill o'r broses

Gallai rhai cyfuniadau o fesurau greu effeithiau cadarnhaol mewn mannau eraill drwy sicrhau ystyriaeth briodol o fater yn gynnar ym mhroses y treial neu drwy wella ansawdd penderfyniadau yn y treial.

### Effaith negyddol ar hawl y diffynnydd i dreial teg

Ar gyfer pob pennod a mesur, rydym wedi ystyried yn ofalus hawl y diffynnydd i dreial teg dan erthygl 6 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn ymyrryd â'r hawl hon. Rydym yn gofyn am eich barn ynglŷn â'r cwestiwn a allai cyfuniadau penodol o fesurau achosi risg o ymyrryd â'r hawl hon.

### Oedi

Yn unigol, gallai un mesur sy'n newid gofynion gweithdrefnol a thystiolaethol gael effaith gyfyngedig, ond gyda'i gilydd, gall nifer o fesurau achosi cynnydd annerbyniol mewn oedi o'i gymharu â'r buddion posibl.

### Costau

Gyda'i gilydd, bydd gofynion gweithdrefnol a thystiolaethol ychwanegol yn cynyddu costau a gallai'r costau hyn fod yn rhy fawr o'u cymharu â'u buddion posibl.

### Beichiau ar y partïon (yr erlyniad a'r amddiffyniad), y llys, yr heddlu ac achwynwyr

Lle mae mwy o ddefnydd o wrandawiadau neu wrandawiadau ychwanegol neu estynedig, bydd hyn yn anorfod yn creu mwy o waith i'r erlyniad, yr amddiffyniad, y llys a'r heddlu. Gallai hefyd roi straen ychwanegol ar yr achwynydd. Gyda'i gilydd, gallai'r beichiau hyn fod yn annerbyniol o gymharu â'u buddion bwriadedig.

### Canlyniadau anfwriadol neu sgil effeithiau

Ar gyfer pob pennod a chwestiwn yn yr ymgynghoriad, rydym wedi dadansoddi a phwyso a mesur effaith debygol newidiadau polisi posibl. Fodd bynnag, oherwydd bod proses y treial troseddol yn gymhleth o safbwynt gweithdrefnol, ffeithiol a chyfreithiol, pan gyfunir mesurau, gallai anfanteision anfwriadol godi.

### Diwygio parhaus arall

Gellir defnyddio mesurau amrywiol i gyflawni'r un nod, gan arwain at fframwaith gorlawn a rhy gymhleth.

### Cwestiwn 28 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad

O ystyried y ffeithiau uchod, beth yw eich barn ynglŷn â sut mae ein cynigion diwygio yn gweithio gyda'i gilydd? Er enghraifft: a oes cyfuniadau arbennig o fesurau sy'n arbennig o effeithiol a buddiol? A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol os gweithredir mwy nag un opsiwn diwygio? A oes unrhyw opsiynau y dylid eu gweithredu gyda'i gilydd yn unig, yn hytrach nag ar wahân? A oes unrhyw rai a ddylai gael blaenoriaeth os yw adnoddau'n rhy brin i ddiwygio pob agwedd? A oes unrhyw ddata ar gael a fydd yn ein helpu i fesur effaith?

# Diwygio radical

Mae llawer o ymdrech wedi mynd i'r gwaith o geisio gwella treialon troseddau rhywiol dros ddegawdau lawer. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol o bryderon nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud, a bod y problemau'n rhy fawr i ymdrin â hwy ag addasiadau bach i broses y treial. Rydym wedi clywed ac ystyried rhai newidiadau mwy radical i broses y treial ar gyfer troseddwyr rhyw. Nid ydym wedi gwneud unrhyw gynigion amodol ar gyfer diwygiadau radical o'r fath, ond rydym yn gofyn cwestiynau agored i gael adborth ynglŷn â rhai newidiadau sylweddol posibl.

## Archwilwyr arbenigol

Mae rhai academyddion wedi dadlau bod angen newid y ffordd y gofynnir cwestiynau i achwynwyr. Mae hyn oherwydd y gallai'r broses o roi tystiolaeth yn y llys arwain at ail-fyw'r trawma. Hefyd, mewn system wrthwynebus fel sydd gennym ni, mae risg y gallai cyfreithiwr y diffynnydd ganolbwyntio ar gael ei gleient yn ddieuog, yn hytrach na bod yr achwynydd yn rhoi ei dystiolaeth orau er mwyn mynd at y gwir ynglŷn â beth ddigwyddodd.

Un awgrym er mwyn ymdrin â hyn yw na fyddai cyfreithiwr y diffynnydd yn gofyn cwestiynau i'r achwynydd. Gallai arbenigwr mewn cyfathrebu, neu gyfreithiwr annibynnol, gwahanol ofyn cwestiynau iddo. Mae hyn yn digwydd mewn rhai gwledydd eraill lle mae plant yn rhoi tystiolaeth, er mwyn ymdrin â'u gwahaniaethau datblygiadol, o gymharu ag oedolion, ac er mwyn gwneud yn siŵr bod cwestiynau'n briodol.

Fodd bynnag, ar gyfer achwynwyr sy'n oedolion, gallai hyn olygu gormod o ymyriad â gallu'r diffynnydd i ofyn cwestiynau i'r achwynydd ynglŷn â'i achos, a gallai treial teg fod yn y fantol pe na bai'r archwiliwr yn holi a stilio digon ynglŷn ag adroddiad yr achwynydd. Gallai hefyd ddrysu'r rheithgor, neu greu canfyddiad negyddol o'r diffynnydd neu ei gyfreithiwr.

Pe gofynnid cwestiynau i'r achwynydd gan gyfreithiwr gwahanol efallai na fyddai'n welliant ar y sefyllfa bresennol, ond pe gofynnid cwestiynau i'r achwynydd gan arbenigwr cyfathrebu efallai na fyddai'n ddigon cyfarwydd â'r prosesau cyfreithiol felly gallai halogi'r dystiolaeth. Yn ychwanegol at hyn, gallai cynnwys gweithiwr proffesiynol arall ychwanegu amser a chostau.

**Cwestiwn 29 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ydych yn meddwl y dylai rhywun ar wahân i gyfreithiwr y diffynnydd ofyn cwestiynau i'r achwynydd? Os ydych, pwy?

## Llysoedd arbenigol

Opsiwn arall fyddai gwrando achosion troseddau rhywiol mewn llysoedd arbenigol. Byddai hyn yn golygu bod pawb sy'n gweithio yn y llysoedd hynny yn cael hyfforddiant am droseddau rhywiol a thrawma, er mwyn iddynt allu rhoi'r gefnogaeth orau i bawb sy'n rhan o'r treial. Byddai gan y llys offer technolegol ar gyfer achosion troseddau rhywiol, gan gynnwys cyfarpar i sicrhau y bydd mesurau sy'n cynorthwyo â rhoi tystiolaeth yn effeithiol, a mynedfeydd ac allanfeydd ar wahân ar gyfer achwynwyr a diffynyddion. Gallai llys arbenigol hefyd olygu rhestru arbenigol ar gyfer treial, lle rhoddir blaenoriaeth i droseddau rhywiol er mwyn ceisio lleihau oedi. Yn olaf, gallai llys arbenigol fod yn un ystafell mewn cwrt sy'n bodoli'n barod, neu gallai fod yn adeilad cwbl ar wahân sydd ddim ond yn ymdrin ag achosion troseddau rhywiol.

Byddai pawb sy’n gweithio yn y llys yn cael hyfforddiant am droseddau rhywiol a thrawma.

Byddai gan y llys gyfarpar technolegol pwrpasol ar gyfer achosion troseddau rhywiol, gan gynnwys cyfarpar i sicrhau y bydd mesurau sy’n helpu pobl i roi tystiolaeth yn effeithiol.

Gallai llys arbenigol fod yn un ystafell mewn cwrt sy’n bodoli’n barod, neu’n adeilad hollol ar wahân sy’n ymdrin ag achosion troseddau rhywiol yn unig.

Â llys arbenigol, gellid rhoi blaenoriaeth i droseddau rhywiol wrth restru, er mwyn ceisio lleihau oedi.

Fodd bynnag, mae rhai risgiau posibl â hyn. Pe bai’n rhaid i bob trosedd rywiol fynd drwy nifer fach o lysoedd neu ystafelloedd llys, gallai hyn gynyddu oedi yn hytrach na’i leihau. Yn ychwanegol at hyn, gallai barnwyr, bargyfreithwyr a staff llys flino a chael digon os ydynt yn ymdrin ag achosion troseddau rhywiol o hyd. Mae troseddau rhywiol eisoes yn cael eu trin yn wahanol yn y system cyfiawnder troseddol ac yn cael eu blaenoriaethu wrth restru, felly mae’n bosibl na fyddai llys arbenigol yn gwneud llawer o wahaniaeth, yn enwedig gan fod barnwyr yn yr achosion hyn eisoes yn gorfod cael hyfforddiant arbennig. Byddai goblygiadau sylweddol hefyd o ran adnoddau. Yn olaf, gallai cael llys cwbl ar wahân awgrymu bod diffynyddion mewn achosion troseddau rhywiol yn fwy peryglus neu’n fwy tebygol o fod yn euog na diffynyddion eraill, a gallai hynny wneud i bobl feddwl nad yw diffynyddion yn cael treial teg.

**Cwestiwn 30 y Crynodeb o’r Ymgynghoriad**

A ydych yn meddwl y dylid cynnal treialon troseddau rhywiol mewn llys neu ystafell llys arbenigol?

## Treialon di-reithgor

Yng Nghymru a Lloegr, defnyddir rheithgorau mewn achosion troseddol difrifol. Mae’r rheithgor yn rhoi’r dyfarniad ac yn penderfynu ynglŷn â’r ffeithiau, tra mae’r barnwr yn penderfynu ynglŷn ag unrhyw gwestiynau cyfreithiol a bydd yn dedfrydu’r diffynnydd os caiff ei ddyfarnu’n euog. Gall treialon rheithgor helpu i sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, ond nid ydynt yn ofynnol, a gall treial fod yn deg heb reithgor. Mae yna eisoes gyd-destunau lle nad yw diffynyddion yn wynebu rheithwyr yng Nghymru a Lloegr. Mae’r rhain yn cynnwys troseddau llai difrifol a gynhelir yn y llys ynadon, pan fydd diffynnydd yn pledio’n euog, treialon a gynhelir yn y Llys Ieuenctid, ac achosion lle mae perygl o ymyrryd â rheithgor.

Mae rhai academyddion a rhanddeiliaid wedi awgrymu nad rheithgorau yw'r ffordd orau o ddod i ddyfarniad mewn achosion troseddau rhywiol. Mae astudiaethau gyda ffug reithwyr wedi canfod bod lefelau "derbyn mythau trais" ymhlith rheithwyr yn effeithio ar eu dyfarniadau. Mae hyn yn golygu y bydd rheithwyr yn fwy neu'n llai tebygol o euogfarnu ar sail syniadau sy'n bodoli'n barod am droseddau rhywiol, yn hytrach na bod eu penderfyniad yn seiliedig ar y dystiolaeth yn yr achos. Mae hyn yn lleihau'r siawns o dreial teg. Yn ogystal, gallai gorfod rhoi tystiolaeth o flaen 12 o leygwyr fod yn brofiad trawmatig iawn i achwynwyr, a gallai eiriolwyr gael eu hannog i chwarae i'r rheithgor neu gefnogi stereoteipiau.

I ddelio gyda hyn, gellid cael gwared ar reithgorau ar gyfer achosion troseddau rhywiol. Yn hytrach, gallai barnwr, panel o farnwyr, neu farnwr â rhai aseswyr lleyg (nad ydynt yn farnwyr) wrando'r achosion. Byddent yn rhoi rhesymau dros eu dyfarniadau, a fyddai'n rhoi eglurder i bawb sy'n cymryd rhan. Yn hytrach na gorfod hyfforddi rheithgorau newydd ar fythau a chamsyniadau ar gyfer pob treial, gellid targedu hyfforddiant tuag at y barnwyr (ac aseswyr lleyg).

**Mae tua 1% o dreialon troseddol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu penderfynu gan reithgor. Bydd diffynnydd sy'n pledio'n ddieuog i drosedd yn cael treial gerbron rheithgor:**

| | | |
|---|---|---|
| Os yw'r drosedd yn drosedd "neillffordd", a bod y diffynnydd yn dewis treial yn Llys y Goron<br><br>**Neu**<br><br>Os yw'r drosedd yn drosedd "dditiadwy yn unig" a bod yn rhaid i'r treial gael ei gynnal yn Llys y Goron | **oni bai** | Bod y diffynnydd yn sefyll ei brawf yn y Llys Ieuenctid<br><br>**Neu**<br><br>Bod perygl o ymyrryd â'r rheithgor<br><br>**Neu**<br><br>Bod nifer y cowntiau yn anymarferol ar gyfer treial gerbron rheithgor<br><br>**Neu**<br><br>Bod y diffynnydd yn pledio perygl dwbl (sy'n golygu ei fod wedi bod o flaen ei well yn barod oherwydd yr un cyhuddiad neu gyhuddiad tebyg) |

Er hyn, caiff rheithgorau eu trin fel elfen hanfodol o system gyfiawnder troseddol deg yn yr awdurdodaeth hon ac mae astudiaethau wedi dangos bod cefnogaeth gyhoeddus sylweddol i reithgorau. Gallai cael gwared ar reithgorau gael effaith ar hyder y cyhoedd yn y system gyfiawnder. Gallai hyn hefyd anfon arwydd na ellir ymddiried mewn rheithgorau mewn achosion eraill, ar wahân i droseddau rhywiol. Gallai barnwyr hefyd gael eu heffeithio gan fythau a chamsyniadau, a gallent flino neu "galedu" i achosion os ydynt yn ymdrin ag achosion troseddau rhywiol yn unig. Yn olaf, mae rheithgorau yn helpu i sicrhau nad oes gorthrwm gan y wladwriaeth mewn erlyniadau. Gallai cael gwared ar reithgorau felly effeithio ar natur agored y treial ac ar dryloywder.

**Cwestiwn 31 y Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

A ydych yn meddwl y dylem gadw rheithgorau mewn achosion troseddau rhywiol ynteu gael gwared arnynt?